Department for Environment Food & Rural Affairs

Department of Agriculture, Environment and Rural Affairs
www.daera-ni.gov.uk

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Scottish Government
Riaghaltas na h-Alba

# Cais am dystiolaeth ar ddiwygio'r system cyfrifoldeb cynhyrchwyr ar gyfer cyfarpar trydanol ac electronig gwastraff

Dyddiad: Rhagfyr 2023

Fersiwn: XXXXXX/R (rhif cod y prosiect / os oes angen)

Ni yw Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig (DEFRA). Rydym yn gyfrifol am wella a gwarchod yr amgylchedd, tyfu'r economi werdd, cynnal cymunedau gwledig ffyniannus a chefnogi ein diwydiannau bwyd, ffermio a physgota o'r radd flaenaf.

Rydym yn gweithio'n agos gyda'n 33 o asiantaethau a chyrff hyd braich ar ein huchelgais o wneud ein haer yn fwy pur, ein dŵr yn lanach, ein tir yn fwy gwyrdd a'n bwyd yn fwy cynaliadwy. Ein cenhadaeth yw adfer a gwella'r amgylchedd ar gyfer y genhedlaeth nesaf, a gadael yr amgylchedd mewn cyflwr gwell nag yr oedd hi.

OGL

© Hawlfraint y Goron 2023

Mae'r wybodaeth hon wedi ei thrwyddedu o dan Drwydded Llywodraeth Agored f3.0. I weld y drwydded, hon ewch i www.nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/

Mae'r cyhoeddiad hwn ar gael yn www.gov.uk/government/publications

Dylid anfon unrhyw ymholiad mewn perthynas â'r cyhoeddiad hwn atom yn

[insert contact details]

PB [insert PB number]

www.gov.uk/defra

# Cynnwys

Pwrpas y cais hwn am dystiolaeth ..... 5
Ehangder daearyddol a diffiniadau ..... 5
Cynulleidfa ..... 6
Ymateb i'r cais am dystiolaeth ..... 6
Hyd ..... 7
Ar ôl i'r cais am dystiolaeth ddod i ben ..... 7
Amdanoch chi ..... 8
Meysydd yr ydym am gael eich safbwyntiau a'ch tystiolaeth yn eu cylch ..... 9
1. Adennill costau net yn llawn ..... 9
Cefndir ..... 9
Yr achos dros newid ..... 9
Meysydd y ceisir tystiolaeth a safbwyntiau ar eu cyfer ..... 11
Cwestiynau ..... 12
2. Dyrannu costau ar gyfer casglu a thrin cyfarpar trydanol ac electronig gwastraff y cartref ..... 13
Cefndir ..... 13
Yr achos dros newid ..... 14
Dulliau Amgen ..... 15
Cwestiynau ..... 15
3. Atal gwastraff ac ailddefnyddio mwy o gyfarpar trydanol ac electronig diangen ..... 16
Cefndir ..... 16
Yr achos dros newid ..... 17
Meysydd y ceisir tystiolaeth a safbwyntiau ar eu cyfer ..... 18
Cwestiynau ..... 19
4. Symud i economi gylchol drwy ddylunio cynnyrch a modelau busnes gwell ..... 21
Cefndir ..... 21
Yr achos dros newid ..... 21
Meysydd y ceisir safbwyntiau a thystiolaeth yn eu cylch ..... 21
Cwestiynau ..... 23
5. Cynyddu casgliadau cyfarpar trydanol ac electronig gwastraff busnesau ..... 25
Cefndir ..... 25
Yr achos dros newid ..... 25
Meysydd y ceisir safbwyntiau a thystiolaeth yn eu cylch ..... 25
Cwestiynau ..... 26

6. Gwella safonau trin ..... 28
Cefndir ..... 28
Yr achos dros newid ..... 29
Meysydd y ceisir safbwyntiau a thystiolaeth yn eu cylch ..... 30
Cwestiynau ..... 31
Rhestr o'r cwestiynau ..... 33
Adennill costau net yn llawn ..... 33
Dyrannu costau ar gyfer casglu a thrin cyfarpar trydanol ac electronig gwastraff y cartref ..... 33
Atal gwastraff ac ailddefnyddio mwy o gyfarpar trydanol ac electronig diangen ..... 34
Symud i economi gylchol drwy ddylunio cynnyrch a modelau busnes gwell ..... 35
Cynyddu casgliadau cyfarpar trydanol ac electronig gwastraff busnesau ..... 37
Gwella safonau trin ..... 39
Geirfa ..... 41
Rhestr o ffynonellau tystiolaeth ..... 43

# Pwrpas y cais hwn am dystiolaeth

Pwrpas y cais hwn am dystiolaeth yw casglu tystiolaeth a safbwyntiau i gefnogi diwygiadau i Reoliadau Cyfarpar Trydanol ac Electronig Gwastraff 2013 sy'n mynd y tu hwnt i'r cynigion penodol a nodir yn yr ymgynghoriad a'r asesiad effaith cysylltiedig a gyhoeddwyd heddiw hefyd. Bydd y dystiolaeth a geisir yma yn llywio datblygiad polisi ehangach sydd â'r bwriad o gefnogi'r ymgyrch tuag at economi fwy cylchol ac ymrwymiadau Sero Net drwy sicrhau bod cynnyrch yn cael eu dylunio a'u gwaredu mewn ffordd sy'n lleihau effeithiau amgylcheddol.

Mae'r cais hwn am dystiolaeth yn ystyried meysydd i'w diwygio lle mae diffyg tystiolaeth ar hyn o bryd yn atal cynigion polisi manwl rhag cael eu datblygu. Rydym wedi nodi nifer o syniadau, ac rydym yn croesawu eich barn arnynt yn ogystal â thystiolaeth ategol. Nid yw'r damcaniaethau hynny'n cynrychioli polisi y cytunwyd arno gan y llywodraeth. Serch hynny, mae'r llywodraeth wedi ymrwymo i ddatblygu polisi yn y meysydd hyn a gweithredu'r polisïau a nodir yn y ddogfen ymgynghori ar yr un pryd.

Yn ogystal ag ymateb i'r cais hwn am dystiolaeth, fe'ch anogir hefyd i ymateb i'r ddogfen ymgynghori ar wahân a'r asesiad effaith a gyhoeddwyd heddiw. Mae'r rhain yn nodi cynigion manwl ar gyfer diwygiadau sy'n ymwneud â darparu seilwaith casglu newydd ar gyfer cyfarpar trydanol ac electronig gwastraff (WEEE) cartrefi, a ariennir gan gynhyrchwyr cyfarpar trydanol ac electronig ac maent yn cryfhau'r rhwymedigaethau a osodir ar fanwerthwyr (gan gynnwys gwerthwyr ar-lein). Yn olaf, mae'n cynnig rhwymedigaethau newydd ar farchnadoedd ar-lein a mesurau sydd wedi'u dylunio i sicrhau bod mewnforwyr a gwneuthurwyr fêps yn talu costau ailgylchu'n briodol pan fyddant yn dod yn wastraff.

Bydd angen datblygu ac ymgynghori ymhellach ar y syniadau a nodir yn y cais hwn am dystiolaeth cyn y gellir gweithredu cynigion polisi. Mae hyn yn golygu na fydd yr holl ddiwygiadau'n cael eu gwneud ar yr un pryd. Yn wir, rhagwelir y bydd diwygiadau'n cael eu cyflwyno'n raddol cyn gynted â'r flwyddyn nesaf gyda mesurau'r ddogfen ymgynghori ar farchnadoedd ar-lein, manwerthwyr yn casglu offer domestig mawr am ddim pan fyddant yn danfon eitem newydd a chyflwyno categori cyfarpar trydanol ac electronig (EEE) newydd ar gyfer fêps. Rhagwelir y bydd y gwaith o gyflwyno'r system casglu o gartrefi yn dechrau o 2026 ymlaen, ynghyd â'r mesurau eraill sydd wedi'u nodi yn y ddogfen ymgynghori. Rhagwelir y bydd cynigion polisi sy'n deillio o'r cais am dystiolaeth yn cael eu cyflwyno'n raddol dros gyfnod hwy.

Mae hwn yn ymgynghoriad ar y cyd rhwng Llywodraeth Cymru, Llywodraeth y DU, Llywodraeth yr Alban a Gweithrediaeth Gogledd Iwerddon.

# Ehangder daearyddol a diffiniadau

Mae cyfrifoldeb cynhyrchwyr a pholisi gwastraff yn faterion sydd wedi'u datganoli. Mae Llywodraeth y DU (yn gweithredu ar ran Lloegr) a Gweinyddiaethau Datganoledig Cymru, Gogledd Iwerddon, a'r Alban wedi cytuno i barhau â dull gweithredu ar draws y DU ar gyfer Cyfrifoldeb Estynedig Cynhyrchwyr o ran cyfarpar trydanol ac electronig gwastraff. Yn unol â hynny, mae'r cais hwn am dystiolaeth yn cael ei wneud ar y cyd gan Lywodraeth Cymru, Llywodraeth y DU, Llywodraeth yr Alban a'r Adran Amaethyddiaeth, yr Amgylchedd a Materion Gwledig yng Ngogledd Iwerddon.

Yng Ngogledd Iwerddon, bydd canlyniad y cais hwn am dystiolaeth yn sail i benderfyniadau Gweinidog newydd dros Amaethyddiaeth, yr Amgylchedd a Materion Gwledig, neu yn

absenoldeb gweinidog, y penderfyniadau hynny y gellir eu gwneud o dan Ddeddf Gogledd Iwerddon (Ffurfio Gweithrediaeth etc) 2022.

Pan gyfeirir yn y ddogfen hon at Lywodraeth y DU mewn perthynas â materion polisi datganoledig, Llywodraeth y DU sy'n gweithredu ar ran Lloegr a olygir. Felly, mae'r ddogfen hon a disgrifiadau o'r gyfraith bresennol yn berthnasol i Gymru, Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon.

Mae unrhyw gyfeiriad at 'y rheoleiddiwr' neu'r 'rheoleiddwyr' yn cyfeirio at Cyfoeth Naturiol Cymru, Asiantaeth yr Amgylchedd, Asiantaeth yr Amgylchedd Gogledd Iwerddon ac Asiantaeth Diogelu Amgylchedd yr Alban oni nodir yn wahanol.

Mae'r cyfeiriadau at 'Awdurdodau Lleol' yn cynnwys cynghorau dosbarth yng Ngogledd Iwerddon.

# Cynulleidfa

Croesewir ymatebion i'r cais hwn am dystiolaeth gan y canlynol:

- busnesau sy'n ymwneud â dylunio, cynhyrchu a phennu cynnyrch electronig a thrydanol
- busnesau sy'n cynhyrchu cynnyrch electronig a thrydanol ac sy'n gosod y cynnyrch ar farchnad y DU
- manwerthwyr, marchnadoedd ar-lein a mewnforwyr cynnyrch electronig a thrydanol
- Cynlluniau Cydymffurfio Cynhyrchwyr electroneg
- sefydliadau sy'n ymwneud â'r sector ailddefnyddio
- sefydliadau sy'n ymwneud â rheoli ac ailgylchu gwastraff electronig gan gynnwys Awdurdodau Lleol, cwmnïau rheoli gwastraff, broceriaid, delwyr, cludwyr, allforwyr ac ailbroseswyr
- sefydliadau eraill fel sefydliadau proffesiynol ac aelodaeth, Cyrff Anllywodraethol, ymgynghorwyr a mudiadau elusennol sydd â diddordeb yn y ffordd y rheolir gwastraff electronig yn y DU
- aelodau o'r cyhoedd

# Ymateb i'r cais am dystiolaeth

A fyddech cystal ag ymateb i'r cais hwn am dystiolaeth yn un o'r ffyrdd canlynol:

Ar-lein gan ddefnyddio [hyb ymgynghori Citizen Space](#).

Er mwyn ei gwneud yn haws i ddadansoddi, byddai'n well gennym gael ymatebion drwy lwyfan Citizen Space, ond mae opsiynau eraill ar gael isod os oes angen:

Dros e-bost at weee@defra.gov.uk

Ymatebion ysgrifenedig drwy'r post i:

Consultation Coordinator,
Defra 2nd Floor, Foss House,
Kings Pool 1-2 Peasholme Green
York
YO1 7PX

Sylwch, mae'n rhaid i unrhyw ymatebion a gaiff eu hanfon drwy'r post fod wedi cyrraedd y cyfeiriad uchod erbyn dyddiad cau'r ymgynghoriad (x) i gael eu hystyried. Yn anffodus, ni allwn ddadansoddi unrhyw ymatebion a ddaw i law ar ôl y dyddiad hwn. I sicrhau bod eich ymateb yn cael ei gynnwys yn y dadansoddiad, ystyriwch ymateb ar-lein ar Citizen Space.

Defra sy'n rheoli'r broses ymgynghori ar ran Llywodraethau Cymru, y DU, yr Alban a'r Adran Amaethyddiaeth, yr Amgylchedd a Materion Gwledig yng Ngogledd Iwerddon.

Bydd Llywodraeth Cymru a Llywodraeth yr Alban yn gallu cael gafael ar yr ymatebion a ddarperir drwy hyb ymgynghori Citizen Space. Os hoffech chi anfon copi o'ch ymateb at Lywodraeth Cymru a/neu Lywodraeth yr Alban, anfonwch e-bost at:

Yr Alban: producerresponsibility@gov.scot

Cymru: ResourceEfficiencyAndCircularEconomy@gov.wales

Os ydych chi'n ymateb o Ogledd Iwerddon, gwnewch yn siŵr bod copi o'ch ymateb hefyd yn cael ei anfon at: EPRTeam@daera-ni.gov.uk

# Hyd

Bydd y cais hwn am dystiolaeth yn dechrau ar 28 Rhagfyr ac yn dod i ben ar 7 Mawrth.

# Ar ôl i'r cais am dystiolaeth ddod i ben

Cyhoeddir crynodeb o'r ymatebion i'r cais hwn am dystiolaeth ac ymateb y llywodraeth ar wefannau'r llywodraeth yn www.llyw.cymru, www.gov.uk/defra, www.daera-ni.gov.uk a www.gov.scot

Bydd y crynodeb yn rhestru'r holl sefydliadau a ymatebodd ond ni fydd yn cynnwys enwau personol, cyfeiriadau na manylion cyswllt eraill. Fodd bynnag, bydd gwybodaeth a ddarperir mewn ymateb i'r ddogfen hon, y cais am dystiolaeth, gan gynnwys gwybodaeth bersonol, yn cael ei rhannu â'r Gweinyddiaethau Datganoledig. Gall hefyd gael ei chyhoeddi neu ei rhyddhau i bartïon eraill neu ei datgelu yn unol â'r cyfundrefnau mynediad at wybodaeth, er enghraifft, Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 a Deddf Diogelu Data 2018.

Os hoffech i unrhyw wybodaeth, yn cynnwys data personol, yr ydych yn ei darparu i gael ei thrin yn gyfrinachol, nodwch hynny yn glir yn ysgrifenedig, pan fyddwch yn cyflwyno eich ymateb i'r cais am dystiolaeth ac eglurwch pam eich bod angen cadw'r manylion hyn yn gyfrinachol.

Os byddwn yn derbyn cais i ddatgelu gwybodaeth o dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth, byddwn yn ystyried eich eglurhad yn llawn, ond oherwydd y gyfraith, ni allwn roi sicrwydd y gellir cynnal cyfrinachedd ym mhob sefyllfa. Ni ystyrir y bydd ymwrthodiad cyfrinachedd awtomatig a gynhyrchir gan eich system TG, ynddo'i hun, yn gais i gadw cyfrinachedd.

Defra yw'r rheolydd data mewn perthynas ag unrhyw ddata personol y byddwch yn eu darparu. Mae Siarter Gwybodaeth Bersonol Defra, sy'n rhoi manylion eich hawliau mewn perthynas â thrin eich data personol, ar gael yn: https://www.gov.uk/government/organisations/department-for-environment-food-rural-affairs/about/personal-information-charter

# Amdanoch chi

Mae amrywiaeth eang o fusnesau, sefydliadau ac unigolion yn ymwneud â chyfarpar trydanol a rheoli cyfarpar trydanol gwastraff, neu'n cymryd diddordeb yn y maes hwn. Bwriad y cwestiynau isod yw deall yr amrywiaeth hwn a rhoi eich ymatebion mewn persbectif gyda rhai ymatebwyr eraill.

**C1. Beth yw eich enw?**

**C2. Beth yw eich cyfeiriad e-bost?**

Mae hyn yn ddewisol, ond os byddwch yn rhoi eich cyfeiriad e-bost byddwch yn gallu dychwelyd i olygu eich ymateb yn Citizen Space ar unrhyw adeg nes i chi ei gyflwyno. Byddwch hefyd yn derbyn e-bost cydnabod pan fyddwch yn cyflwyno ymateb wedi'i gwblhau.

**C3. Pa un o'r canlynol sy'n eich disgrifio chi orau?**

Rhowch enw'r sefydliad, y mudiad neu'r busnes rydych chi'n ei gynrychioli ac amcangyfrif o faint/nifer y staff (lle bo hynny'n berthnasol). (Ticiwch un dewis os gwelwch yn dda. Os oes mwy nag un categori yn berthnasol, dewiswch yr un sy'n rhoi'r disgrifiad gorau o'r sefydliad rydych chi'n ei gynrychioli yn eich ymateb.)

- corff masnach neu sefydliad arall sy'n cynrychioli busnes
- cynhyrchydd electronig
- Cynllun Cydymffurfio Cynhyrchwyr
- dosbarthwr (gan gynnwys marchnad ar-lein)
- cwmni rheoli gwastraff
- gweithredwr neu ailbrosesydd gwastraff
- allforiwr
- llywodraeth leol
- grŵp cymunedol
- sefydliad anllywodraethol
- elusen neu fenter gymdeithasol
- gweithredwr ailddefnyddio neu atgyweirio
- ymgynghoriaeth
- academaidd neu ymchwil
- unigolyn (hynny yw, ddim yn cynrychioli sefydliad)
- arall
- Os ateboch chi 'Arall', rhowch fanylion:

**C4. Ydych chi am i'ch ymateb fod yn gyfrinachol?**

Atebwch Ydw neu Nac ydw

Os mai 'Ydw' oedd eich ateb, esboniwch yn gryno pam eich bod am i'ch ymateb fod yn gyfrinachol.

# Meysydd yr ydym am gael eich safbwyntiau a'ch tystiolaeth yn eu cylch

## 1. Adennill costau net yn llawn

### Cefndir

Un o egwyddorion allweddol cyfrifoldeb estynedig cynhyrchwyr (EPR) yw bod cynhyrchwyr (mewnforwyr a gweithgynhyrchwyr yn y DU yn bennaf) yn talu'r gost net lawn o reoli'r cynnyrch sydd ganddynt ar y farchnad pan fydd yn dod yn wastraff. Ceir rhagor o fanylion am y rhain isod.

Mae'r gost o gasglu a thrin yn briodol yr holl gyfarpar trydanol ac electronig gwastraff sy'n cyrraedd Canolfannau Ailgylchu Gwastraff y Cartref (HWRC) Awdurdodau Lleol eisoes yn cael ei hariannu gan gynhyrchwyr. Mae'n ofynnol hefyd i gynhyrchwyr ariannu cost trin cyfarpar trydanol ac electronig gwastraff y mae manwerthwyr yn ei ddychwelyd i Gynlluniau Cydymffurfio Cynhyrchwyr (PCS). Yn ogystal, mae gwaith trin cyfarpar trydanol ac electronig gwastraff sydd ar gael mewn canolfannau elusennau ailddefnyddio yn aml yn cael ei ariannu gan gynhyrchwyr, er nad oes gofyniad penodol iddynt wneud hynny yn y rheoliadau presennol. Mae rheoleiddwyr amgylcheddol hefyd yn codi ffioedd ym mhob rhan o'r Deyrnas Unedig ar sail adennill costau er mwyn sicrhau bod y drefn yn cael ei monitro a'i gorfodi'n effeithiol. Mae cynhyrchwyr sy'n rhoi llai na 5 tunnell o gyfarpar trydanol ac electronig ar farchnad y DU bob blwyddyn wedi'u heithrio o'r rhwymedigaethau ariannol hyn ac mae angen iddynt adrodd yn flynyddol ar ddata'r farchnad i'w rheoleiddiwr amgylcheddol.

Mae Atodlen 5 o Ddeddf yr Amgylchedd 2021 yn rhoi pŵer cyffredinol i Lywodraeth y DU osod rhwymedigaethau ar gynhyrchwyr i dalu am amrywiaeth o gostau sy'n gysylltiedig â gwaredu ffrwd wastraff benodol. Pan fydd rhwymedigaethau o'r fath yn cael eu rhoi ar waith, dylid gwneud hynny mewn ffordd deg, dylent adlewyrchu costau a chydnabod yr amgylchiadau penodol a'r systemau casglu sydd ar waith ar gyfer mathau penodol o wastraff.

### Yr achos dros newid

Fel rhan o'n hymrwymiad i sicrhau bod y system ar gyfer cyfarpar trydanol ac electronig gwastraff yn y dyfodol yn gydnaws â'n fframwaith cyfrifoldeb estynedig cynhyrchwyr (EPR) ehangach, mae'r bennod hon yn gofyn am safbwyntiau a thystiolaeth ynghylch a ddylai cynhyrchwyr dalu costau eraill sy'n gysylltiedig â chael gwared ar gyfarpar trydanol ac electronig gwastraff, y tu hwnt i'r hyn y mae ganddynt ddyletswydd i dalu amdano ar hyn o bryd.

Mae'r achos dros newid yn y cais hwn am dystiolaeth wedi'i fframio o ran nifer o syniadau, neu gynigion cychwynnol, yn seiliedig ar y ddealltwriaeth ar hyn o bryd. Rydym yn croesawu tystiolaeth a safbwyntiau ar y rhain, a byddant yn cael eu defnyddio i ddatblygu a bwrw ymlaen â chynigion cadarn, fel sy'n briodol.

Mae'r ddogfen ymgynghori sy'n cyd-fynd â'r cais hwn am dystiolaeth yn nodi cynigion i gynhyrchwyr ariannu'r gwaith casglu cyfarpar trydanol ac electronig gwastraff ar wahân o gartrefi a'r gwaith cyfathrebu cysylltiedig. Ar ben hynny, mae'r ddogfen ymgynghori yn nodi cynigion i sefydlu rôl Gweinyddwr Cynllun newydd o dan arweiniad cynhyrchwyr, a allai fod yn gyfrifol am gyflwyno'r system hon o gasglu o gartrefi, ynghyd â chasglu data a monitro a gwerthuso effeithiolrwydd y system newydd.

Yn gryno, gellir categoreiddio rhwymedigaethau cynhyrchwyr fel a ganlyn:

1. Rhwymedigaethau ariannol presennol:

    a. Y gost o gasglu a thrin yn briodol yr holl gyfarpar trydanol ac electronig gwastraff sy’n cyrraedd Canolfannau Ailgylchu Gwastraff y Cartref (HWRC) Awdurdodau Lleol a gorsafoedd trosglwyddo gwastraff.
    b. Y gost o drin cyfarpar trydanol ac electronig gwastraff a ddychwelir i Gynlluniau Cydymffurfio Cynhyrchwyr gan fanwerthwyr.
    c. Cost casglu yng nghyfleusterau casglu Awdurdodau Lleol a thrin cyfarpar trydanol ac electronig cartrefi sy’n cael ei dipio’n anghyfreithlon
    d. Darparu data i awdurdodau lleol i gefnogi eu rhwymedigaethau adrodd ar ddata gwastraff.
    e. Costau sy'n gysylltiedig â rhwymedigaethau i ddosbarthwyr gymryd cyfarpar yn ôl
    f. Costau sy’n gysylltiedig â systemau a gweithrediadau cofrestru a monitro cydymffurfiaeth gan y rheoleiddwyr.

2. Rhwymedigaethau ariannol newydd sy’n deillio o’r cynigion polisi yn yr ymgynghoriad:

    a. Costau cyfalaf, gorbenion a gweithredol sy’n gysylltiedig â darparu gwasanaeth casglu o’r cartref ar gyfer cyfarpar trydanol gwastraff bach
    b. Costau cyfalaf, gorbenion a gweithredol sy’n gysylltiedig â darparu gwasanaethau casglu o’r cartref ar gyfer cyfarpar trydanol gwastraff swmpus
    c. Costau sy’n gysylltiedig â gwaith cyfathrebu ac ymgyrchu, yn lleol ac yn genedlaethol, sydd wedi’i anelu at ddeiliaid tai, i godi ymwybyddiaeth a thrwy hynny gynyddu cyfraddau casglu a lefelau ailddefnyddio ac ailgylchu a lleihau faint o gyfarpar trydanol ac electronig gwastraff a waredir yn amhriodol, fel drwy’r ffrwd gwastraff gweddilliol.
    d. Costau sy’n gysylltiedig â chasglu, adrodd a dadansoddi data i asesu effaith y rheoliadau newydd (ee darparu data ar y farchnad, data cyfarpar trydanol ac electronig gwastraff a gasglwyd, samplu rheolaidd i bennu lefelau cyfarpar trydanol ac electronig gwastraff yn y dyfodol mewn gwastraff gweddilliol)
    e. Cost gweithredu Gweinyddwr Cynllun i gyflawni swyddogaethau penodol a bennir yn y rheoliadau diwygiedig
    f. Costau a ysgwyddir gan gynhyrchwyr, sy’n deillio o greu categori cyfarpar ar wahân ar gyfer fêps
    g. Costau sy'n deillio o greu categori newydd sef cynhyrchwyr ar gyfer Marchnadoedd Ar-lein.
    h. Costau ychwanegol a ysgwyddir gan ddosbarthwyr yn sgil rhwymedigaethau cryfach ar gyfer cymryd cyfarpar yn ôl
    i. Costau ychwanegol a ysgwyddir gan y rheoleiddiwr ym mhob gwlad wrth ymgymryd â gweithgareddau monitro a gorfodi cydymffurfiaeth sy’n gysylltiedig â’r rhwymedigaethau newydd arfaethedig

Mae Deddf yr Amgylchedd 2021 hefyd yn rhoi hyblygrwydd i ni gyflwyno costau eraill gan gynnwys y rheini sy’n codi mewn perthynas â chynhyrchion neu ddeunyddiau sydd wedi cael eu gwaredu’n anghyfreithlon. Yng nghyd-destun cyfarpar trydanol ac electronig gwastraff, gall hyn gynnwys:

- Costau cyfalaf, gorbenion a gweithredol sy’n gysylltiedig â darparu gwasanaeth casglu ar gyfer busnesau a sefydliadau cyhoeddus
- Costau casglu a thrin cyfarpar trydanol ac electronig gwastraff a waredir yn amhriodol yn y ffrwd gwastraff gweddilliol.
- Costau casglu a thrin cyfarpar trydanol ac electronig gwastraff sydd wedi cael ei daflu fel sbwriel, gyda fêps yn achos perthnasol.
- Costau clirio cyfarpar trydanol ac electronig gwastraff sy'n cael ei dipio'n anghyfreithlon.

Felly, rydym yn croesawu safbwyntiau a thystiolaeth ynghylch i ba raddau y dylai’r mesurau yn y pwyntiau bwled uchod fod yn rhan o’r model adennill costau net llawn ar gyfer cyfarpar trydanol ac electronig gwastraff.

## Meysydd y ceisir tystiolaeth a safbwyntiau ar eu cyfer

- Bod cynhyrchwyr yn talu costau casglu/clirio cyfarpar trydanol ac electronig gwastraff sydd wedi’i gynnwys mewn gwastraff gweddilliol, gwastraff sy’n cael ei dipio’n anghyfreithlon a gwastraff sy’n cael ei daflu fel sbwriel.

Costau casglu a thrin cyfarpar trydanol ac electronig gwastraff mewn gwastraff gweddilliol

Rydym yn croesawu tystiolaeth (gan gynnwys data am gostau) a safbwyntiau ar ei gwneud yn ofynnol i gynhyrchwyr ariannu’r gwaith o gasglu a thrin cyfarpar trydanol ac electronig gwastraff cartrefi sy’n cael ei waredu â gwastraff gweddilliol (hy “gwastraff bag du”).

Gellid dadlau y dylai cynhyrchwyr gymryd cyfrifoldeb ariannol llawn dros gynnyrch y maent yn ei roi ar y farchnad, beth bynnag fo’r llwybr gwaredu a ddewisir gan ddeiliad y tŷ. Gallai cynnwys costau casglu a thrin cyfarpar trydanol ac electronig gwastraff yn y ffrwd gwastraff gweddilliol gymell cynhyrchwyr i ddylunio a gweithgynhyrchu cynnyrch y mae modd ei ailddefnyddio a’i atgyweirio, a byddai hynny yn ei dro yn creu gwasanaethau cylchol i reoli'r cynnyrch. Gallai peidio â chynnwys y costau hyn arwain at ganlyniadau anfwriadol, er enghraifft, drwy gymell cynhyrchwyr i beidio ag annog cyfarpar trydanol ac electronig gwastraff i gael ei symud o wastraff gweddilliol i systemau ailgylchu neu i baratoi i’w ailddefnyddio drwy gyfathrebu effeithiol.

Fodd bynnag, gellid dadlau hefyd, os bydd Awdurdodau Lleol yn cael cyllid gan gynhyrchwyr beth bynnag ar gyfer cost prosesu cyfarpar trydanol ac electronig gwastraff mewn gwastraff gweddilliol, y gallent fod yn llai tebygol o gefnogi gweithredu’r system casglu o gartrefi o dan arweiniad cynhyrchwyr, yr ydym yn ymgynghori arni ar hyn o bryd.

Gellid dadlau bod yn rhaid i ddeiliaid tai eu hunain gymryd cyfrifoldeb personol dros ddelio’n briodol â’u cyfarpar trydanol gwastraff. Yn wahanol i ddeunydd pacio, er enghraifft, mae cyfarpar trydanol y cartref yn tueddu i beidio â bod yn bethau dros dro a gellir ailgylchu pob un, gan gyfleu neges syml i ddeiliaid tai i wneud y peth iawn. Mae hyn mewn cyd-destun lle byddai cynhyrchwyr yn y dyfodol yn ariannu costau gwasanaeth casglu cyfarpar trydanol ac electronig gwastraff cartrefi cyfleus ac ar wahân, ar gyfer cyfarpar sy’n cael ei waredu fel arfer gyda gwastraff gweddilliol heddiw. Byddai’r neges angenrheidiol hefyd yn cael ei chyfleu i aelwydydd ynghylch y gwasanaethau casglu ac ailgylchu cyfarpar trydanol ac electronig gwastraff hynny.

Costau cyfarpar trydanol ac electronig gwastraff sy'n cael ei daflu fel sbwriel a’i dipio'n anghyfreithlon

Bydd y diwygiadau i wastraff deunydd pacio yn ymestyn cyfrifoldeb cynhyrchwyr i gostau deunyddiau pacio sy’n cael eu gwaredu mewn biniau ar y stryd ac ymgyrchoedd cyfathrebu ar sbwriel ledled y DU. Polisi Llywodraeth Cymru a’r Alban yw adennill costau deunyddiau pacio sy’n cael eu taflu ar y llawr gan gynhyrchwyr y deunydd pacio a bydd eu Llywodraethau’n cyflwyno cynigion ar gyfer gweithredu hyn maes o law.

O’r 976,000 o achosion o dipio anghyfreithlon a gofnodwyd yn 2019/20, roedd 5% yn cynnwys nwyddau gwyn ac roedd 1.5% yn cynnwys cyfarpar trydanol arall. Mae’r Rheoliadau Cyfarpar Trydanol ac Electronig Gwastraff eisoes yn sicrhau mai cynhyrchwyr sy’n gyfrifol am gost cludo i ffwrdd o ardal yr Awdurdod Lleol a thrin yn briodol y cyfarpar trydanol ac electronig gwastraff cartrefi sy'n cael ei dipio'n anghyfreithlon. Byddwn yn archwilio sut gellir ymestyn y ddarpariaeth hon i gyfarpar trydanol ac electronig nad yw’n dod o gartrefi mewn cynigion yn y dyfodol ar gyfer diwygio’r rhwymedigaethau cyllido hyn ar gynhyrchwyr. Dylai cyfathrebu effeithiol a gwasanaeth casglu o’r cartref yn rhad ac am ddim, a ariennir gan gynhyrchwyr, ddirymu unrhyw ganfyddiad bod tipio anghyfreithlon yn ffordd gyfleus o gael gwared ar gyfarpar trydanol diangen. Felly, dylai’r mesurau hynny arwain at leihau tipio anghyfreithlon, sy’n drosedd, gan ddeiliaid tai neu’r rheini sy’n gwaredu gwastraff o gartrefi ar eu rhan.

Fodd bynnag, mae cwestiwn o hyd ynghylch a ddylai cynhyrchwyr fod yn gyfrifol am glirio cyfarpar trydanol ac electronig gwastraff sy’n cael ei dipio’n anghyfreithlon. Gellir defnyddio’r un egwyddor ar gyfer rheoli a chlirio cyfarpar trydanol ac electronig gwastraff sy’n cael ei daflu fel sbwriel, gyda fêps yn broblem benodol. Nid yw cyfarpar trydanol, gan mwyaf, wedi’i gynllunio i gael ei ddefnyddio a’i waredu “wrth fynd” ac felly nid yw’n cael ei daflu fel sbwriel fel arfer pan fydd yn troi’n wastraff. Fel gyda gwastraff gweddilliol, gallai cynnwys y costau hyn olygu bod cynhyrchwyr yn cael eu cymell fwy i ddylunio a gweithgynhyrchu cynnyrch y mae modd ei ailddefnyddio a’i atgyweirio, a byddai hynny yn ei dro yn creu gwasanaethau cylchol i reoli'r cynnyrch.

Rydym yn croesawu tystiolaeth (gan gynnwys tystiolaeth am gostau) a safbwyntiau ynghylch a ddylai cynhyrchwyr dalu’r gost lawn o gasglu a thrin cyfarpar trydanol ac electronig gwastraff gweddilliol, sydd wedi cael ei dipio’n anghyfreithlon neu ei daflu fel sbwriel, a’i glirio gan Awdurdodau Lleol.

Wrth gasglu eich ymatebion, tynnwch sylw at unrhyw ffynonellau tystiolaeth rydych chi’n credu y dylem eu hystyried.

## Cwestiynau

5. Gan ystyried y pwyntiau o blaid ac yn erbyn a nodir yn y cais am dystiolaeth, dewiswch pa rai o’r gweithgareddau canlynol y dylai cynhyrchwyr eu hariannu:

    a) Cyfarpar trydanol ac electronig gwastraff mewn gwastraff gweddilliol
    b) Cyfarpar trydanol ac electronig gwastraff sy’n cael ei dipio’n anghyfreithlon
    c) Cyfarpar trydanol ac electronig gwastraff sy’n cael ei daflu fel sbwriel

6. Rhowch dystiolaeth o gyfaint (tunelli) cyfarpar trydanol ac electronig gwastraff sy'n codi yn y DU a/neu yn ôl gwlad mewn gwastraff gweddilliol.

7. Rhowch dystiolaeth o gyfaint (tunelli) cyfarpar trydanol ac electronig gwastraff sy'n codi yn y DU a/neu yn ôl gwlad mewn gwastraff sy’n cael ei dipio’n anghyfreithlon.

8. Rhowch dystiolaeth o gyfaint (tunelli) sy'n codi yn y DU a/neu yn ôl gwlad mewn gwastraff sy’n cael ei daflu fel sbwriel.

9. Rhowch dystiolaeth o’r costau net fesul tunnell ar gyfer casglu cyfarpar trydanol ac electronig gwastraff mewn gwastraff gweddilliol.

10. Rhowch dystiolaeth o’r costau net fesul tunnell ar gyfer casglu cyfarpar trydanol ac electronig gwastraff mewn gwastraff sy’n cael ei dipio’n anghyfreithlon.

11. Rhowch dystiolaeth o’r costau net fesul tunnell ar gyfer casglu cyfarpar trydanol ac electronig gwastraff mewn gwastraff sy’n cael ei daflu fel sbwriel.

12. Rhowch dystiolaeth o’r mathau o gyfarpar trydanol ac electronig gwastraff a gaiff eu cynnwys fel arfer mewn ffrwd gwastraff gweddilliol.

13. Rhowch dystiolaeth o’r mathau o gyfarpar trydanol ac electronig gwastraff a gaiff eu cynnwys fel arfer mewn gwastraff sy’n cael ei dipio’n anghyfreithlon.

14. Rhowch dystiolaeth o’r mathau o gyfarpar trydanol ac electronig gwastraff a gaiff eu cynnwys fel arfer mewn gwastraff sy’n cael ei daflu fel sbwriel.

## 2. Dyrannu costau ar gyfer casglu a thrin cyfarpar trydanol ac electronig gwastraff y cartref

### Cefndir

Mae’r Rheoliadau Cyfarpar Trydanol ac Electronig Gwastraff yn ei gwneud yn ofynnol i gynhyrchwyr cyfarpar cartrefi gymryd cyfrifoldeb ariannol ar y cyd am effaith amgylcheddol y cynnyrch y maent yn ei roi ar y farchnad pan ddaw'r cynnyrch yn wastraff.

Gosod targedau casglu blynyddol o gartrefi yw’r mecanwaith o fewn y rheoliadau presennol sy’n galluogi gosod rhwymedigaethau ariannol ar gynhyrchwyr i sicrhau bod cyfarpar trydanol ac electronig gwastraff yn cael ei gasglu a’i drin yn briodol. Mae cynhyrchwyr, drwy fod yn aelodau o’u Cynlluniau Cydymffurfio Cynhyrchwyr, naill ai’n bodloni’r rhwymedigaeth ariannol hon drwy gasglu cyfarpar trydanol ac electronig gwastraff, talu “ffi cydymffurfio” yn lle’r costau a ysgwyddir drwy gasglu, neu gyfuniad o’r ddau.

Os nad yw targedau’n cael eu cyrraedd, yna mae’n rhaid i Gynlluniau Cydymffurfio Cynhyrchwyr dalu ffi cydymffurfio, fel ffordd arall o gydymffurfio, gan felly dalu’r costau y maent wedi’u hosgoi. Defnyddir yr arian a godir i gefnogi ymgyrchoedd cyfathrebu sydd wedi’u hanelu at ddeiliaid tai, prosiectau lleol sydd wedi’u cynllunio i gynyddu achosion o gasglu ar gyfer ailddefnyddio ac ailgylchu ac ymchwil.

Ymdrinnir â thargedau ar broseswyr cyfarpar trydanol ac electronig gwastraff ar gyfer adfer, ailgylchu ac ailddefnyddio cyfarpar o’r fath a gesglir ar wahân ym **Mhennod 6 ar safonau trin** y cais hwn am dystiolaeth.

Mae gosod targedau bob blwyddyn yn caniatáu ar gyfer addasiadau i ystyried tueddiadau yn y farchnad a newidiadau mewn technoleg sy’n effeithio ar lefelau cyfarpar trydanol ac electronig gwastraff a waredir. Mae rhai rhanddeiliaid wedi mynegi pryderon y gall y dull tymor byr hwn o osod targedau arwain at ddiffyg sicrwydd i fusnesau a diffyg hyder wrth wneud

cysylltiadau a buddsoddiadau cytundebol tymor hwy. Felly, rydym yn gofyn am farn ynghylch a ddylem fabwysiadu dull gweithredu tymor hwy yn y dyfodol. Mae'r Ysgrifennydd Gwladol yn gosod targedau ar sail y DU gyfan mewn ymgynghoriad â gweinyddiaethau datganoledig. Mae data'n cael eu casglu a'u hadrodd ar gyfer y DU gyfan, ond ar hyn o bryd nid yw'r data yn cael eu dadansoddi fesul gwlad unigol. Mae'r gweinyddiaethau datganoledig yn awyddus i sicrhau bod modd asesu effeithiau'r rheoliadau yn y dyfodol ym mhob gwlad a chymryd camau os bydd yr effaith honno'n is na'r gofynion sylfaenol.

Nid yw'r system bresennol wedi arwain at gynnydd sylweddol mewn cyfarpar trydanol ac electronig gwastraff o gartrefi sy'n cael ei gasglu ar wahân. Gwyddom fod niferoedd sylweddol yn cael eu celcio, eu taflu gyda gwastraff gweddilliol neu'n cael eu trin y tu allan i'r system bresennol sy'n cael ei hariannu gan gynhyrchwyr. Nid problem yn y DU yn unig yw hon. Ar y cyfan, nid yw Aelod-wladwriaethau'r UE wedi gallu cyrraedd y targed o 65% o gyfarpar trydanol ac electronig sydd wedi'i roi ar y farchnad sydd wedi bod mewn grym ers 2019. Er ei bod yn hawdd mesur hyn, ychydig iawn o lwyddiant a gafwyd gyda'r targedau hyn fel sylfaen i sbarduno newid yn ymddygiad defnyddwyr. Ar ben hynny, nid yw'r cysylltiad rhwng yr hyn rydym yn ei brynu a'r hyn rydym yn ei daflu, sy'n nodwedd o ddeddfwriaeth yr UE, yn un uniongyrchol. Felly mae'n gwneud unrhyw system o dargedau casglu sy'n seiliedig ar yr hyn a roddir ar y farchnad yn debygol o fod yn fesur diffygiol o lwyddiant. Mae ein hymadawiad o'r UE yn gyfle i ystyried ffyrdd eraill o sicrhau canlyniadau amgylcheddol da drwy well rheoleiddio.

Ar wahân i'r targedau, mae tystiolaeth gref bod ymgysylltu â defnyddwyr ag adnoddau priodol, ynghyd â seilwaith hygyrch, yn arwain at welliannau sylweddol mewn casgliadau mewn nifer o wledydd yn Ewrop.

Yn hytrach na thargedau casglu, rydym felly eisiau canolbwyntio ar ddatblygu'r seilwaith angenrheidiol. Mae Pennod 1 y ddogfen ymgynghori gysylltiedig yn gofyn am safbwyntiau ar gynigion y Llywodraeth sydd â'r bwriad o'i gwneud yn haws o lawer i ddeiliaid tai anfon eitemau nad oes eu hangen arnynt i gael eu hailddefnyddio neu eu hailgylchu, gan leihau lefelau cyfarpar trydanol ac electronig gwastraff mewn gwastraff gweddilliol, sy'n cael ei gelcio gartref neu sy'n cael ei daflu'n anghyfreithlon. Byddai'r seilwaith casglu newydd hwn yn cael ei gefnogi gan waith cyfathrebu priodol sy'n cael ei ariannu gan gynhyrchwyr i godi ymwybyddiaeth o opsiynau i ddefnyddwyr ar gyfer gwaredu cyfarpar trydanol ac electronig gwastraff yn briodol.

## Yr achos dros newid

Rydym yn croesawu tystiolaeth a safbwyntiau ar ddisodli'r broses bresennol o osod targedau blynyddol â mecanwaith lle cyhoeddir rhagolwg o'r cyfarpar trydanol ac electronig gwastraff a geir ym mhob un o'r categorïau cyfarpar trydanol ac electronig. Gallai'r rhagolwg hwnnw fod yn seiliedig ar gynigion cyntaf Gweinyddwr Cynllun cyfarpar trydanol ac electronig gwastraff ac yna gael ei ddatblygu a'i orfodi gan y Llywodraeth. Byddai'r rhagolwg wedyn yn cael ei drosi'n rhwymedigaethau ariannol a fyddai'n cael eu rhoi ar Gynlluniau Cydymffurfio Cynhyrchwyr yn ôl cyfran y farchnad sy'n aelodau ar draws pob un o'r categorïau cyfarpar trydanol ac electronig. Fodd bynnag, yn wahanol i darged, byddai'r rhagolwg yn asesiad gwrthrychol o gyfarpar trydanol ac electronig gwastraff sy'n debygol o godi ac ni fyddai casgliadau yn erbyn y rhagolwg hwnnw yn ddangosydd perfformiad allweddol i fesur llwyddiant yn ei erbyn. Gofynnir am safbwyntiau ar fesurau llwyddiant eraill posibl ym Mhennod 5 y ddogfen ymgynghori gysylltiedig.

Byddai mecanwaith ffioedd cydymffurfio yn parhau ar gyfer y cynlluniau hynny sy'n methu â chyflawni eu rhwymedigaethau mewn unrhyw flwyddyn unigol, er y dylid annog cynhyrchwyr a Chynlluniau Cydymffurfio Cynhyrchwyr i sicrhau casgliadau ffisegol yn hytrach na dibynnu

ar y ffi cydymffurfio i fodloni eu rhwymedigaethau. Mae'r trefniant presennol yn gwarantu bod Awdurdodau Lleol yn casglu eu holl gyfarpar trydanol ac electronig gwastraff, ac y bydd hyn yn cael ei ariannu gan Gynlluniau Cydymffurfio Cynhyrchwyr, hyd yn oed pan fydd rhwymedigaethau ariannol a osodwyd ar ddechrau'r flwyddyn wedi cael eu cyflawni ac y byddent hefyd yn parhau.

**Rydym yn croesawu tystiolaeth a safbwyntiau ar sefydlu proses dreigl 3 blynedd ar gyfer pennu rhwymedigaethau ariannol cynhyrchwyr.** Er ei fod yn pennu cyfeiriad ar gyfer y dyfodol, byddai'n rhaid ei adolygu'n flynyddol er mwyn ystyried newidiadau yn y farchnad a allai ei wneud yn llai effeithiol. Serch hynny, mae rhai rhanddeiliaid wedi awgrymu y gallai helpu i fynd i'r afael â phryderon am broblemau tymor byr yn y farchnad ac ansicrwydd ynghylch cyflenwad deunyddiau yn y dyfodol sy'n cyfyngu ar fuddsoddiad newydd. Rydym yn croesawu tystiolaeth ynghylch a allai dull gweithredu o'r fath helpu i liniaru pryderon a fynegwyd gan y sector trin am y dull gweithredu blynyddol presennol.

Byddem yn croesawu tystiolaeth a safbwyntiau ynghylch a allai newidiadau i god ymarfer cyfarpar trydanol ac electronig gwastraff i fynnu cyfnod contract o dair blynedd o leiaf rhwng Cynllun Cydymffurfio Cynhyrchwyr a gweithredwyr Cyfleuster Casglu Dynodedig Awdurdodau Lleol hefyd helpu i oresgyn y pryderon am y dull blynyddol presennol.

## Dulliau Amgen

Yn olaf, rydym yn croesawu tystiolaeth a safbwyntiau ynghylch a oes awydd i newid y system yn fwy eang gyda rhwymedigaethau ariannol yn y dyfodol yn seiliedig ar "system ddyrannu". O dan y dull hwn, byddai Cynlluniau Cydymffurfio Cynhyrchwyr yn cael eu dyrannu i Awdurdodau Lleol, dosbarthwyr a gweithredwyr economaidd eraill sydd â chyfarpar trydanol ac electronig gwastraff mewn un neu fwy o'r ffrydiau casglu y maent yn dymuno eu trosglwyddo i Gynlluniau Cydymffurfio Cynhyrchwyr i'w drin.

Byddai'r rhwymedigaeth ariannol a roddir ar gynhyrchwyr yn parhau i fod yn seiliedig ar gyfran y farchnad a faint o gyfarpar trydanol ac electronig gwastraff sy'n codi yn y system mewn unrhyw gyfnod cydymffurfio. Byddai rhagolwg yn cael ei ddefnyddio i osod rhwymedigaethau tunelledd ar gyfer Cynllun Cydymffurfio Cynhyrchwyr.

Gallai cynhyrchwyr barhau i wneud trefniadau gyda'u Cynlluniau Cydymffurfio i ddefnyddio tunelledd a gesglir drwy eu systemau casglu uniongyrchol eu hunain i wrthbwyso eu rhwymedigaethau a ariennir gan y Cynllun. Byddai casgliadau uniongyrchol sy'n uwch na'r rhai sy'n ofynnol i gyflawni eu rhwymedigaethau eu hunain yn cael eu cynnwys yn y broses gyfatebu. Ystyriwyd y dull hwn yn yr ymgynghoriad diwethaf ar ddiwygio system cyfrifoldeb cynhyrchwyr yng nghyswllt cyfarpar trydanol ac electronig gwastraff yn 2012. Ni fabwysiadwyd dull o'r fath yn dilyn canlyniad yr ymgynghoriad hwnnw, ond byddem yn croesawu barn ar rinweddau edrych eto ar y dull hwn.

## Cwestiynau

15. A ydych yn cytuno neu'n anghytuno y dylem sefydlu proses dreigl 3 blynedd ar gyfer pennu rhwymedigaethau ariannol cynhyrchwyr i greu mwy o sicrwydd yn y system? Dewiswch un o'r opsiynau canlynol:
    a. Cytuno
    b. Anghytuno
    c. Ddim yn siŵr

16. Darparwch dystiolaeth ynghylch p'un a fyddai gosod rhagolwg treigl tair blynedd ai peidio yn rhoi mwy o sicrwydd yn y system ac yn annog y sector trin i fuddsoddi mwy.

17. Rhowch dystiolaeth i ddangos a fyddai rhagolwg tair blynedd i osod rhwymedigaethau ariannol yn cael ei gefnogi gan hyd contract o dair blynedd o leiaf rhwng Cynlluniau Cydymffurfio Cynhyrchwyr a Chyfleusterau Casglu Dynodedig er mwyn annog y sector trin i fuddsoddi mwy?

18. Beth yw eich barn am y syniad o sefydlu system ddyrannu fel ffordd arall o osod rhwymedigaethau ariannol ar gynhyrchwyr a gwarantu y bydd gwasanaethau casglu Awdurdodau Lleol yn cael eu hariannu?

19. Rhowch dystiolaeth o'r amcangyfrif o gostau a manteision ariannol sefydlu a gweithredu system o'r fath.

20. Rhowch dystiolaeth o unrhyw ddulliau eraill, nad ydynt wedi'u disgrifio ym Mhennod 2, a allai, yn eich barn chi, fod yn addas ar gyfer dyrannu rhwymedigaethau ariannol ar gynhyrchwyr.

## 3. Atal gwastraff ac ailddefnyddio mwy o gyfarpar trydanol ac electronig diangen

### Cefndir

Rydym wedi ymrwymo i ymyriadau polisi sy'n rhoi blaenoriaeth i atal gwastraff, gan gynnwys ailddefnyddio yn hytrach nag ailgylchu lle bo hynny'n bosibl, yn unol â'r hierarchaeth gwastraff. Er mwyn hybu'r nod hwn, cyhoeddodd Llywodraeth y DU Raglen newydd o'r enw 'Maximising Resources, Minimising Waste', ym mis Gorffennaf 2023. Mae'r rhaglen yn amlinellu camau gweithredu arfaethedig i atal gwastraff rhag codi mewn saith sector allweddol (adeiladu, dodrefn, cerbydau, bwyd, deunydd pacio plastig, tecstilau a chyfarpar electronig).

Mae'r ddogfen ymgynghori yn rhoi mwy o rwymedigaethau ar ddosbarthwyr i gymryd cyfarpar yn ôl a chyflwyno system gasglu o gartrefi o dan arweiniad cynhyrchwyr, a bydd y cynigion yn arwain at gynyddu lefelau ailddefnyddio yn hytrach nag ailgylchu. Fodd bynnag, rydym am archwilio beth arall y gellir ei wneud.

Mae sawl ffordd o hwyluso ac annog ailddefnyddio mwy ar gyfarpar nad oes ei angen mwyach. Mae'r rhain yn cynnwys dylunio cynnyrch i bara'n hirach ac i gael ei atgyweirio'n haws (er enghraifft, gyda chydrannau modiwlaidd) a dargyfeirio cyfarpar diangen sy'n dal yn gweithio o safleoedd gwastraff (er enghraifft, i elusennau).

Mae Llywodraeth Cymru a Llywodraeth yr Alban wedi ymrwymo i gefnogi canolfannau atgyweirio ac ailddefnyddio, gan gynnwys caffis trwsio. Yng Ngogledd Iwerddon, helpodd cyllid DAERA i sefydlu Rhwydwaith Adnoddau Gogledd Iwerddon i ddarparu cymorth i sefydliadau symud adnoddau ymhellach i fyny'r hierarchaeth gwastraff ac i hyrwyddo ailddefnyddio ac atgyweirio fel dulliau amgen o ddelio â'n hadnoddau.

Mae'n rhaid i gynhyrchwyr nad ydynt yn cyrraedd eu targedau casglu dalu ffi cydymffurfio. Mae'r arian a godir gan y ffi cydymffurfio yn cael ei reoli a'i ddosbarthu gan sefydliad annibynnol o'r enw Material Focus ac yn cael ei ddefnyddio i gefnogi nifer o fentrau

ailddefnyddio lleol. Mae arian a godir gan Gynllun Cymryd yn ôl Dosbarthwyr – cynllun sy'n caniatáu i rai manwerthwyr optio allan o'u rhwymedigaeth i gynnig cymryd cyfarpar trydanol ac electronig gwastraff yn ôl yn y siop – hefyd wedi cael ei ddefnyddio i gefnogi prosiectau Awdurdodau Lleol sy'n ceisio annog ailddefnyddio.

Ar hyn o bryd, mae'r rheoliadau'n datgan bod yn rhaid i Gynlluniau Cydymffurfio Cynhyrchwyr flaenoriaethu gwaith paratoi ar gyfer ailddefnyddio. Mae casglu cyfarpar trydanol ac electronig gwastraff i'w baratoi i gael ei ailddefnyddio yn cael ei gyfrif gan Gynlluniau Cydymffurfio Cynhyrchwyr tuag at dargedau casglu ynghyd â'r hyn sy'n cael ei gasglu i'w ailgylchu.

Ar ben hynny, bydd llawer o fanwerthwyr sy'n cynnig cymryd cyfarpar trydanol ac electronig yn ôl oddi wrth ddefnyddwyr yn eu siopau neu drwy gasglu cyfarpar ar wasanaethau danfon yn sicrhau bod y deunydd hwnnw'n cael ei ddargyfeirio i'w ailddefnyddio lle bo hynny'n briodol.

## Yr achos dros newid

Mae llawer iawn yn cael ei ailddefnyddio eisoes, gan gynnwys drwy farchnadoedd ar-lein ac wrth i ddefnyddwyr drosglwyddo eu hen eitemau i aelodau o'u teulu neu ffrindiau. Ond mae ambell gynnyrch sy'n addas i'w ailddefnyddio yn cael ei ailgylchu, ei losgi neu ei roi mewn safle tirlenwi. Mae'n bosibl na fyddai rhai cynhyrchion erioed wedi cael eu defnyddio, efallai oherwydd bod gormod o stoc neu am fod cynnyrch wedi'i werthu ar-lein yn cael ei anfon yn ôl.

Mae'r adolygiad hwn yn gyfle i gefnogi'r ymgyrch tuag at yr economi gylchol drwy hyrwyddo mwy o ailddefnyddio a thrwy hynny sicrhau bod cynhyrchion yn parhau i gael eu defnyddio'n hirach.

Er bod rhwymedigaeth ar Gynlluniau Cydymffurfio Cynhyrchwyr i flaenoriaethu ailddefnyddio offer cyfan cyn ei ailgylchu, yn unol â Rheoliad 30 o'r Rheoliadau Cyfarpar Trydanol ac Electronig Gwastraff, nid oes llawer o dystiolaeth i ddeall i ba raddau y mae hynny'n digwydd mewn gwirionedd. Mae tystiolaeth anecdotaidd yn awgrymu y bydd Cynlluniau Cydymffurfio Cynhyrchwyr yn aml yn cael eu cyfyngu gan y cyfleusterau a ddarperir yng Nghanolfannau Ailgylchu Gwastraff y Cartref Awdurdodau Lleol nad ydynt o bosibl yn addas ar gyfer diogelu cyfarpar er mwyn gallu ei ailddefnyddio. Fodd bynnag, mae'r system yn gwobrwyo Cynlluniau Cydymffurfio Cynhyrchwyr am flaenoriaethu ailddefnyddio drwy ganiatáu i gyfarpar trydanol ac electronig gwastraff a gesglir i'w ailddefnyddio gael ei gyfrif tuag at dargedau casglu. Mae hefyd yn werth nodi'r cymhellion masnachol priodol o werthu cyfarpar swyddogaethol, ail-law o'i gymharu â chost anfon y cyfarpar hwnnw i'w ailgylchu.

Mae bwlch yn y data ar lefel ailddefnyddio ar draws yr economi yn yr amgylchiadau niferus lle nad yw offer trydanol yn cael ei dderbyn fel gwastraff cyn cael ei ailddefnyddio.

Mae Canolfannau Ailgylchu Gwastraff y Cartref Awdurdodau Lleol yn defnyddio mwy a mwy o fesurau i wahanu eitemau i'w hailddefnyddio drwy siopau ar y safle a phartneriaethau ag elusennau ailddefnyddio lleol. Fodd bynnag, ni fydd eitemau sy'n cael eu dargyfeirio i'r lleoliadau ailddefnyddio hynny fel arfer yn cael eu cofnodi gan y system cyfarpar trydanol ac electronig gwastraff, ac nid oes data ar gael i ni gan nad ystyrir ei fod yn wastraff (er y gallai rhai Awdurdodau Lleol a chanolfannau ailgylchu fod yn casglu'r data hwn)

Mae ein gallu i sicrhau bod mwy o gyfarpar trydanol ac electronig gwastraff yn cael ei ailddefnyddio yn dibynnu ar sicrhau ei fod yn cael ei reoli mewn ffordd sy'n cefnogi ailddefnyddio. Felly, mae angen i ni ystyried mesurau i annog ailddefnyddio cyfarpar trydanol ac electronig gwastraff mewn perthynas â'n seilwaith casglu presennol a'n cynigion i ehangu'r

seilwaith hwn drwy gasglu o gartrefi a rhwymedigaethau gwell ar gyfer manwerthwyr, gan fanteisio i'r eithaf ar gyfleoedd i ailddefnyddio drwy'r rhwydweithiau casglu hyn.

## Meysydd y ceisir tystiolaeth a safbwyntiau ar eu cyfer

Rydym yn croesawu tystiolaeth ar sut gallai'r system bresennol gefnogi'n well y gwaith o flaenoriaethu ailddefnyddio yn unol â'r hierarchaeth gwastraff. Rydym o'r farn bod pedwar mesur y gellid eu hymgorffori mewn rheoliadau yn y dyfodol ond nad oes gennym dystiolaeth ynghylch costau a manteision tebygol pob un i gefnogi datblygu polisi ymhellach:

- Y byddai rhoi mwy o bwysoliad ar dunelledd a gesglir gan Gynlluniau Cydymffurfio Cynhyrchwyr ar gyfer ailddefnyddio (neu baratoi i ailddefnyddio) tuag at eu targedau casglu, yn hytrach na thunelledd a gesglir ar gyfer ailgylchu yn cymell mwy o gasglu ar gyfer ailddefnyddio (neu baratoi ar gyfer ailddefnyddio).

Gallai hyn olygu y gallai tunnell o gyfarpar trydanol ac electronig gwastraff a gesglir i'w ailddefnyddio (neu ei baratoi i gael ei ailddefnyddio) gyfrif, er enghraifft, fel 1.5 tunnell tuag at rwymedigaethau casglu o dan y model hwn. Y man cychwyn yw y bydd yr holl achosion o gyfarpar trydanol ac electronig gwastraff sy'n deillio o awdurdodau lleol a sianeli manwerthwyr yn cymryd cyfarpar yn ôl yn cael ei gasglu a'i ariannu gan gynhyrchwyr. Mae Cynlluniau Cydymffurfio Cynhyrchwyr yn cael rhwymedigaeth wedi'i mynegi mewn tunelli o gyfarpar trydanol ac electronig gwastraff y mae angen iddynt ei ariannu. Ond o dan yr egwyddor hon, pe bai gan Gynllun Cydymffurfio Cynhyrchwyr rwymedigaeth ariannol o 90 tunnell dyweder, ond bod yr holl bethau y mae wedi'u casglu yn cael eu hanfon i'w hailddefnyddio (neu eu paratoi i'w hailddefnyddio) dim ond 60 tunnell y byddai angen iddo ei ariannu i fodloni ei rwymedigaeth ariannol. Bydd angen rhagor o dystiolaeth i sefydlu i ba raddau y dylid modiwleiddio'r tunelledd a gesglir i'w ailddefnyddio i adlewyrchu gwerth amgylcheddol uwch ailddefnyddio yn hytrach nag ailgylchu. Byddai'n rhaid ei osod ar lefel a fyddai'n cymell Cynlluniau Cydymffurfio Cynhyrchwyr a'u partneriaid i sicrhau bod ailddefnyddio (neu baratoi i ailddefnyddio) yn cael ei ystyried yn weithredol yn eu dulliau o gasglu, cludo a thrin cyfarpar trydanol ac electronig gwastraff. Byddai hefyd angen sicrhau bod mesurau cadarn yn cael eu rhoi ar waith i atal tystiolaeth dwyllodrus rhag cael ei chyhoeddi ar gyfer ailddefnyddio (neu baratoi i ailddefnyddio).

- Y dylem gyflwyno targedau newydd ar gyfer ailddefnyddio (neu baratoi ar gyfer ailddefnyddio) cyfarpar trydanol ac electronig gwastraff sydd wedi cael ei gasglu ar wahân i fathau eraill o wastraff i gymell casglu mwy o gyfarpar i'w ailddefnyddio (neu baratoi ar gyfer ei ailddefnyddio).

Gallai unrhyw darged o'r fath ddisgyn ar Gynlluniau Cydymffurfio Cynhyrchwyr fel is-set o'u rhwymedigaethau casglu cyfarpar trydanol ac electronig gwastraff, ond gallai targedau o'r fath hefyd gael eu gosod ar weithredwyr eraill sy'n delio â chyfarpar trydanol ac electronig gwastraff. Er enghraifft, mae cyfleusterau trin eisoes angen cyrraedd targed ailgylchu ac ailddefnyddio cyfunol a tharged adfer cyffredinol ar wahân.

- Y byddai rhwymedigaeth ar Gynlluniau Cydymffurfio Cynhyrchwyr i ddarparu gwasanaethau casglu am ddim i elusennau ailddefnyddio a'r sector manwerthu elusennol ar gyfer cyfarpar a roddwyd, ac y bernir yn ddiweddarach ei fod yn anaddas i'w ailddefnyddio, yn hyrwyddo ailddefnyddio mwy drwy ddileu rhwystr cost sylweddol i'r sector.

Mae llawer o elusennau ailddefnyddio yn cael eu cymeradwyo fel cyfleusterau casglu a/neu drin o dan y Rheoliadau Cyfarpar Trydanol ac Electronig Gwastraff.  Mae rhai siopau elusen hefyd yn derbyn cyfarpar. Byddai gorchymyn casglu cyfarpar a roddwyd ond a oedd wedyn yn cael ei ystyried yn anaddas i'w ailddefnyddio gan y sefydliadau hyn gan Gynlluniau Cydymffurfio Cynhyrchwyr yn dileu cost bosibl o'r sector elusennau ailddefnyddio a allai atal rhagor o fuddsoddiad yn y sector.

- Y dylem ofyn i fanwerthwyr ac awdurdodau lleol i gasglu data ychwanegol ynghylch faint o gyfarpar ail-law sy'n cael ei dderbyn yn y cyfleusterau casglu hyn i'w ailddefnyddio, ac o ganlyniad, sy'n cael ei ddargyfeirio o system cyfrifoldeb cynhyrchwyr cyfarpar trydanol ac electronig gwastraff. Byddai hyn yn rhoi cipolwg newydd sylweddol ar faint o gyfarpar sy'n cael ei ailddefnyddio nad yw'n cael ei ystyried fel gwastraff.

Nid yw nifer fawr o gyfarpar ail-law a gesglir gan fanwerthwyr ac Awdurdodau Lleol yn cael eu hadrodd oherwydd bod y cyfarpar yn cael ei ddargyfeirio o'r ffrwd wastraff i'w ailddefnyddio, ei atgyweirio neu ei adnewyddu. Byddai gofyn i fanwerthwyr ac Awdurdodau Lleol adrodd ar ddata ar gyfarpar ail-law a gasglwyd i'w ailddefnyddio yn helpu i roi darlun mwy cyflawn o faint o gyfarpar sy'n cael ei ddargyfeirio o'r system cyfarpar trydanol ac electronig gwastraff i'w ailddefnyddio, gan alluogi datblygu polisi mwy cadarn. Mae'r Rheoliadau Cyfarpar Trydanol ac Electronig Gwastraff eisoes yn ei gwneud yn ofynnol i fanwerthwyr gadw cofnodion o faint o gyfarpar trydanol ac electronig gwastraff a ddychwelir iddynt drwy'r cynllun cymryd yn ôl, er nad oes rhwymedigaeth adrodd.

Gallem gyflwyno rhwymedigaethau adrodd newydd i ddeall faint o ddeunydd sy'n cael ei ddargyfeirio i'w ailddefnyddio neu i fynd ar drywydd dulliau gwirfoddol.

## Cwestiynau

21. A ydych yn cytuno neu'n anghytuno y byddai rhoi mwy o bwysoliad ar dunelledd a gesglir gan Gynlluniau Cydymffurfio Cynhyrchwyr ar gyfer ailddefnyddio (neu baratoi i ailddefnyddio) tuag at eu targedau casglu, yn hytrach na thunelledd a gesglir ar gyfer ailgylchu yn cymell mwy o ailddefnyddio (neu baratoi ar gyfer ailddefnyddio) cyfarpar trydanol ac electronig gwastraff? Dewiswch un o'r opsiynau canlynol:
    a. Cytuno
    b. Anghytuno
    c. Ddim yn siŵr

22. Rhowch unrhyw dystiolaeth sydd gennych i gefnogi eich ateb i gwestiwn 21.

23. A ydych yn cytuno neu'n anghytuno y dylem gyflwyno targedau newydd ar gyfer ailddefnyddio (neu baratoi ar gyfer ailddefnyddio) cyfarpar trydanol ac electronig gwastraff sydd wedi cael ei gasglu ar wahân i fathau eraill o wastraff i gymell casglu mwy o gyfarpar i'w ailddefnyddio (neu baratoi ar gyfer ei ailddefnyddio)? Dewiswch un o'r opsiynau canlynol:
    a. Cytuno
    b. Anghytuno
    c. Ddim yn siŵr

24. Rhowch unrhyw dystiolaeth sydd gennych i gefnogi eich ateb i gwestiwn 23.

25. Os ydych chi wedi ateb cytuno ar gyfer cwestiwn 23, rhowch dystiolaeth i ddangos ar ba rai o'r grwpiau rhanddeiliaid isod y dylid gosod targedau er mwyn cael yr effaith fwyaf? Dewiswch un o'r opsiynau canlynol:
    a. Cynhyrchwyr (drwy Gynlluniau Cydymffurfio Cynhyrchwyr)
    b. Manwerthwyr
    c. Awdurdodau lleol
    d. Manwerthwyr ac Awdurdodau Lleol ill dau
    e. Ddim yn siŵr

26. Rhowch unrhyw dystiolaeth sydd gennych i gefnogi eich ateb i gwestiwn 25.

27. A ydych yn cytuno neu'n anghytuno y byddai rhwymedigaeth ar Gynlluniau Cydymffurfio Cynhyrchwyr i ddarparu gwasanaethau casglu am ddim i elusennau ailddefnyddio a'r sector manwerthu elusennol ar gyfer cyfarpar a roddwyd, ac y bernir yn ddiweddarach ei fod yn anaddas i'w ailddefnyddio, yn hyrwyddo ailddefnyddio mwy drwy ddileu rhwystr cost sylweddol i'r sector? Dewiswch un o'r opsiynau canlynol:
    a. Cytuno
    b. Anghytuno
    c. Ddim yn siŵr

28. Rhowch unrhyw dystiolaeth sydd gennych i gefnogi eich ateb i gwestiwn 27.

29. A ydych yn cytuno neu'n anghytuno y byddai mynediad at ddata gan fanwerthwyr ac Awdurdodau Lleol ar faint o gyfarpar ail-law sy'n cael ei dderbyn yn y cyfleusterau casglu hyn i'w ailddefnyddio (ac o ganlyniad, sy'n cael ei ddargyfeirio o system cyfrifoldeb cynhyrchwyr cyfarpar trydanol ac electronig gwastraff) yn rhoi cipolwg newydd sylweddol a defnyddiol ar faint o gyfarpar sy'n cael ei ailddefnyddio nad yw'n cael ei ystyried fel gwastraff? Dewiswch un o'r opsiynau canlynol:
    a. Cytuno
    b. Anghytuno
    c. Ddim yn siŵr

30. Rhowch unrhyw dystiolaeth sydd gennych i gefnogi eich ateb i gwestiwn 29.

31. Rhowch dystiolaeth (gan gynnwys o ffynonellau rhyngwladol) o fecanweithiau posibl eraill i gynyddu lefelau ailddefnyddio a pharatoi ar gyfer ailddefnyddio ar draws amrywiaeth eang o gynnyrch.

## 4. Symud i economi gylchol drwy ddylunio cynnyrch a modelau busnes gwell

### Cefndir

Mae annog ecoddylunio a dull cylch oes gyfan o ddylunio cynnyrch yn rhan allweddol o gyflawni economi gylchol sy'n fwy effeithlon o ran adnoddau. Gall lleihau faint o gyfarpar rydym yn ei weithgynhyrchu a sicrhau bod mwy o gyfarpar trydanol ac electronig gwastraff yn cael ei ailddefnyddio neu ei ailgylchu helpu i leihau allyriadau carbon a chyflawni nodau amgylcheddol ehangach yn ogystal â helpu i ddiogelu stociau hanfodol o adnoddau naturiol y ddaear. Mae ymchwil yn dangos bod echdynnu adnoddau ar gyfer cynhyrchion electronig, a'u gweithgynhyrchu, fel ffonau symudol er enghraifft, yn cyfrannu at dros 50% o'u hallyriadau $CO_2$ gydol eu hoes.

Mae deddfwriaeth ecoddylunio bresennol yn sicrhau bod nifer o gynnyrch trydanol yn cael ei ddylunio i fodloni meini prawf effeithlonrwydd ynni ac adnoddau sylfaenol penodol. Mae'r rhain yn cynnwys mesurau fel sicrhau bod darnau sbâr ar gael a gwybodaeth ar gyfer atgyweirwyr cyfarpar mawr yn y cartref fel peiriannau golchi dillad, peiriannau golchi llestri ac oergelloedd mewn cartrefi. Mae Llywodraeth y DU wedi cyhoeddi fframwaith polisi cynnyrch sy'n gysylltiedig ag ynni sy'n nodi sut byddwn yn hybu cynnyrch i ddefnyddio llai o ynni, adnoddau a deunyddiau, gan arbed carbon a helpu cartrefi a busnesau i leihau eu biliau ynni heb iddynt orfod gwneud fawr o ymdrech.

### Yr achos dros newid

Nid yw'r Rheoliadau Cyfarpar Trydanol ac Electronig Gwastraff presennol yn annog cynhyrchwyr i ddylunio cynnyrch sy'n cefnogi'r economi gylchol. Mae nifer o wledydd wedi cyflwyno costau cydymffurfio cynhyrchwyr wedi'u modiwleiddio (sy'n cael eu hegluro isod) sydd wedi'u cynllunio i annog ecoddylunio cynnyrch yn well, ond nid yw llwyddiant y mesurau hyn wedi cael ei werthuso rhyw lawer hyd yn hyn. Felly, mae angen gwneud rhagor o waith i sicrhau bod unrhyw system o'r fath a gyflwynir yn y DU yn addas i'r diben. Roedd cais am dystiolaeth gan BEIS ar bolisi Ecoddylunio yn datgelu bod ymatebwyr yn teimlo y gellid cyflwyno gwell mesurau effeithlonrwydd adnoddau, gan gynnwys sicrhau bod darnau sbâr a gwybodaeth am atgyweirio a chynnal a chadw ar gael ar gyfer y rhan fwyaf o gynnyrch.

Gallai "eco-fodiwleiddio" fod yn un adnodd i ysgogi gwell dylunio. O dan ddull gweithredu wedi'i fodiwleiddio ar gyfer Cyfrifoldeb Estynedig Cynhyrchwyr, bydd y costau a delir gan gynhyrchwyr yn amrywio yn ôl meini prawf penodol sy'n ymwneud ag agweddau ar berfformiad amgylcheddol eu cynnyrch. Yr egwyddor sylfaenol yw bod costau cydymffurfio yn is i gynhyrchwyr cynnyrch sy'n bodloni meini prawf penodol o'u cymharu â'r rheini nad ydynt yn bodloni'r meini prawf hynny.

### Meysydd y ceisir safbwyntiau a thystiolaeth yn eu cylch

- Y gallai rhoi system eco-fodiwleiddio ar waith yn system cyfarpar trydanol ac electronig gwastraff y DU gymell dylunio cynnyrch mwy cynaliadwy.

Yn y DU, mae'n ofynnol i gynhyrchwyr (drwy fod yn aelodau o Gynllun Cydymffurfio Cynhyrchwyr) ariannu'r gwaith o gasglu swm o gyfarpar trydanol ac electronig gwastraff ym mhob categori cyfarpar trydanol ac electronig ar sail eu cyfran o'r farchnad ar gyfer y categori hwnnw ac ymrwymo i gontractau gyda chasglwyr, cwmnïau cludo a chyfleusterau trin i

brosesu cyfarpar trydanol ac electronig gwastraff i fodloni eu rhwymedigaethau o dan y Rheoliadau hynny.

Dadansoddodd ymchwil a gomisiynwyd gan Defra dri dull posibl ar gyfer ymgorffori'r egwyddor o eco-fodiwleiddio yn System cyfarpar trydanol ac electronig gwastraff y DU. Y cyntaf oedd cyflwyno system newydd ar gyfer Cyfrifoldeb Estynedig Cynhyrchwyr lle byddai ffioedd a delir gan gynhyrchwyr i'w cynlluniau cydymffurfio i dalu am gost casglu a thrin cyfarpar trydanol ac electronig gwastraff yn cael eu haddasu i wobrwyo dyluniad da cynnyrch neu gosbi dyluniad gwael cynnyrch. Byddai hyn yn cael ei benderfynu yn ôl meini prawf effeithlonrwydd adnoddau posibl (rhoddir enghreifftiau isod). Addasu'r Rheoliadau Cyfarpar Trydanol ac Electronig Gwastraff oedd yr ail, lle gwelsom ddata cyfran marchnad cynhyrchwyr yn cael eu modiwleiddio fel bod y cynhyrchwyr hynny y mae eu cynnyrch yn cael mwy o effaith amgylcheddol negyddol yn gorfod bod yn gyfrifol am ariannu cyfran uwch o gyfarpar trydanol ac electronig gwastraff cartrefi sy'n codi o'i gymharu â'r rhai y mae eu cynnyrch yn cael llai o effaith amgylcheddol. Yn olaf, roedd yr ymchwil hefyd yn edrych ar system cynllun dychwelyd blaendal ond yn diystyru'r dull hwn oherwydd nifer o heriau wrth fabwysiadu dull gweithredu o'r fath ar gyfer gwerthu cyfarpar trydanol ac electronig. Roedd yr ymchwil yn argymell yr ail opsiwn o fodiwleiddio costau cydymffurfio drwy addasu data cyfran y farchnad. Byddai hyn yn cyd-fynd â system bresennol Cyfrifoldeb Estynedig Cynhyrchwyr y DU, lle mae'n rhaid i gynhyrchwyr ariannu'r gwaith o gasglu a thrin cyfarpar trydanol ac electronig gwastraff yn gymesur â'u cyfran o'r farchnad ar draws 14 categori o gynnyrch.

Roedd yr ymchwil yn dadansoddi tri metrig posibl i flaenoriaethu grwpiau cynnyrch i ddefnyddio eco-fodiwleiddio – pwysau cynnyrch, nifer yr unedau a werthwyd ac ôl troed carbon cynnyrch.

Byddai pennu eco-ddyluniad da ar gyfer y cynhyrchion hyn yn seiliedig ar feini prawf eco-ddylunio manwl. Dyma enghreifftiau o feini prawf posibl a nodwyd gan yr ymchwil:

- cynnwys wedi'i ailgylchu
- modd atgyweirio
- gwydnwch
- effeithlonrwydd ynni
- dadgydosod
- presenoldeb sylweddau peryglus

Roedd yr ymchwil yn awgrymu y gallai eco-fodiwleiddio o bosibl gynnig synergedd â rheoliadau eco-ddylunio ar y sail ei fod yn cydweddu â rheoliadau rhyngwladol eraill, er y bydd angen gwneud rhagor o waith i sicrhau dull eco-fodiwleiddio sy'n addas i'r diben.

Mae ymchwil wedi dangos bod yn well gennym system hunanddatgan i bennu a gydymffurfir â'r meini prawf, ond gyda'r amod y dylai safonau a methodoleg mesur fod ar gael i gwblhau proses ddatgan sy'n seiliedig ar dystiolaeth.

Gellid defnyddio labelu hefyd i gyfleu i ddefnyddwyr i ba raddau y mae cynhyrchion wedi cael eu dylunio i fodloni meini prawf modiwleiddio eco-ddylunio penodol.

- Y dylai cynhyrchion sydd ar gael ar y farchnad gan ddefnyddio modelau busnes economi gylchol gael eu heithrio o'r gwaith o gyfrifo rhwymedigaethau casglu a thrin a roddir ar gynhyrchwyr oherwydd y byddant yn gyfrifol am y cynnyrch unigol pan ddaw'n wastraff beth bynnag.

Gall modelau busnes cylchol (fel modelau prydlesu cynnyrch yn hytrach na gwerthu cynnyrch) hefyd gyfrannu'n sylweddol at yr economi gylchol gan fod cynhyrchion yn fwy tebygol o gael

eu hatgyweirio a'u hadnewyddu a pharhau i gael eu defnyddio am gyfnod hwy. Y darparwr gwasanaeth sy'n dal i fod yn berchen ar gynnyrch a gyflenwir yn y modd hwn, ac felly ni ddylai godi fel gwastraff cartrefi, a gellid dadlau ei fod yn cefnogi'r farn y dylid eu diystyru o rwymedigaethau casglu cynhyrchwyr o dan y Rheoliadau Cyfarpar Trydanol ac Electronig Gwastraff.

## Cwestiynau

32. A ydych yn cytuno neu'n anghytuno y gallai rhoi system eco-fodiwleiddio ar waith yn system cyfarpar trydanol ac electronig gwastraff y DU gymell dylunio cynnyrch mwy cynaliadwy? Dewiswch un o'r opsiynau canlynol:
    a. Cytuno
    b. Anghytuno
    c. Ddim yn siŵr

33. Rhowch unrhyw dystiolaeth sydd gennych i gefnogi eich ateb i gwestiwn 32.

34. Os ydych yn cytuno â chwestiwn 32, pa rai o'r dulliau canlynol fyddech chi'n fwyaf tebygol o'u cefnogi:
    a. System newydd o gyfrifoldeb estynedig cynhyrchwyr lle mae ffioedd amrywiol, yn seiliedig ar unedau a roddir ar y farchnad (POM), yn cael eu modiwleiddio drwy weithredu cosb (ffi uwch) neu fonws (ffi is).
    b. Cynnal y system bresennol o osod rhwymedigaethau ar sail dull cyfran marchnad (yn ôl pwysau) ond gyda'r gyfran honno o'r farchnad wedi'i modiwleiddio i wobrwyo cynhyrchwyr y mae eu cynnyrch yn cael yr effaith amgylcheddol leiaf, gan leihau eu costau cydymffurfio o'u cymharu â'r rheini sy'n cynhyrchu cynnyrch mwy niweidiol.
    c. Y naill neu'r llall o'r dulliau uchod

35. Pa rai o'r metrigau canlynol y dylem ni eu defnyddio i flaenoriaethu cynnyrch ar gyfer eco-fodiwleiddio? Dewiswch un o'r opsiynau canlynol:
    a. Cyfanswm pwysau'r cynnyrch (mewn tunelli).
    b. Cyfanswm faint a werthwyd (mewn unedau) ar farchnad y DU.
    c. Dwysedd carbon y cynnyrch.

36. Pa rai o'r meini prawf canlynol y dylid eu defnyddio fel sail effeithiol ar gyfer eco-fodiwleiddio:
    a. Cynnwys wedi'i ailgylchu
    b. Modd ailgylchu
    c. Modd atgyweirio
    d. Gwydnwch
    e. Effeithlonrwydd ynni
    f. Sylweddau peryglus

37. A oes unrhyw feini prawf eraill, heblaw’r rhai a nodir yng nghwestiwn 36, a fyddai’n berthnasol yn eich barn chi? Nodwch beth allai’r rhain fod.

38. Sut dylid dilysu cydymffurfiad â meini prawf eco-fodiwleiddio mewn ffordd sy’n cydbwyso cost â chyfanrwydd y system? Dewiswch un o'r opsiynau canlynol:
    a. Hunanddatgan
    b. Datganiad trydydd parti
    c. Awdurdodau yn rheoli neu’n archwilio o flaen llaw

39. A ydych yn cytuno neu’n anghytuno y dylai eco-fodiwleiddio gael ei gefnogi gan labeli gorfodol er mwyn i ddefnyddwyr allu gweld i ba raddau mae’r cynnyrch wedi bodloni meini prawf penodol ar gyfer eco-ddylunio? Dewiswch un o'r opsiynau canlynol:
    a) Cytuno
    b) Anghytuno
    c) Ddim yn siŵr

40. Rhowch unrhyw dystiolaeth sydd gennych i gefnogi eich ateb i gwestiwn 39.

41. Os ydych wedi ateb ‘cytuno’ i gwestiwn 39, ym mha fformat ydych chi’n meddwl y dylid dangos yr wybodaeth hon? Dewiswch un o'r opsiynau canlynol:
    a) Cod QR (neu dag electronig arall)
    b) Label ffisegol
    c) Fformat arall (rhowch fanylion)

42. A ydych yn cytuno neu’n anghytuno y dylai cynhyrchion sydd ar gael ar y farchnad gan ddefnyddio modelau busnes economi gylchol gael eu heithrio o’r gwaith o gyfrifo rhwymedigaethau casglu a thrin a roddir ar gynhyrchwyr oherwydd y byddant yn gyfrifol am y cynnyrch unigol pan ddaw’n wastraff beth bynnag? Dewiswch un o'r opsiynau canlynol:
    a. Cytuno
    b. Anghytuno
    c. Ddim yn siŵr

43. Rhowch unrhyw dystiolaeth sydd gennych i gefnogi eich ateb i gwestiwn 42.

## 5. Cynyddu casgliadau cyfarpar trydanol ac electronig gwastraff busnesau

### Cefndir

Mae’r Rheoliadau Cyfarpar Trydanol ac Electronig Gwastraff yn gosod rhwymedigaethau gwahanol ar gynhyrchwyr mewn perthynas â chyfarpar trydanol ac electronig gwastraff sy'n deillio o gartrefi a rhai gan fusnesau a defnyddwyr eraill nad ydynt yn ddefnyddwyr cartrefi.

Yn wahanol i system cyfarpar trydanol ac electronig gwastraff cartrefi, mae'r Rheoliadau yn ei gwneud yn ofynnol i gynhyrchwyr sefydlu system ddychwelyd ar gyfer cyfarpar trydanol ac electronig gwastraff busnesau, drwy aelodaeth o Gynllun Cydymffurfio Cynhyrchwyr. Yn ymarferol, mae’n fwyaf tebygol mai cyfleuster trin y mae gan Gynllun Cydymffurfio Cynhyrchwyr gontract ag ef yw’r man dychwelyd. Ond rhaid i’r defnyddiwr nodi’r cynhyrchydd perthnasol ar gyfer pob eitem o gyfarpar trydanol ac electronig gwastraff a’i Gynllun Cydymffurfio Cynhyrchwyr cyn trefnu i ddanfon yr eitemau i’r cyfleuster casglu dynodedig. Felly mae’r system yn feichus i’w defnyddio ac mae’n debygol o gyfrannu at lefelau isel o gasgliadau cyfarpar trydanol ac electronig gwastraff gan fusnesau. Mae gan gynhyrchwyr hefyd opsiwn i drosglwyddo eu rhwymedigaethau cyfarpar trydanol ac electronig gwastraff i’r defnyddiwr busnes adeg gwerthu. Mae hefyd yn wir y bydd busnesau’n debygol o gydnabod gwerth posibl cyfarpar diwydiannol segur ac y byddant yn ceisio cadw’r gwerth hwnnw yn hytrach na’i ddychwelyd i’r cynhyrchydd, gan gyfrannu hefyd at lefelau isel o ddychwelyd eitemau.

Mae cyfarpar sy’n cael ei werthu i fusnesau (er enghraifft, gliniadur) sydd o natur y gellid ei werthu i ddeiliad tŷ hefyd yn cael ei gofnodi fel cyfarpar cartref ar hyn o bryd pan fydd yn cael ei roi ar y farchnad ac os caiff ei ddychwelyd i’r cynhyrchydd fel gwastraff. Mae hyn yn cyfrannu ymhellach at ddiffyg data cadarn ar faint o gyfarpar trydanol ac electronig sy'n cael ei werthu i fusnesau a lleoliad y cyfarpar pan gaiff ei waredu.

Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i gyflwyno rheoliadau newydd i’w gwneud yn ofynnol, o 6 Ebrill 2024 ymlaen, i ddeiliaid pob adeilad annomestig wahanu gwastraff allweddol y gellir ei ailgylchu (gan gynnwys cyfarpar trydanol ac electronig gwastraff bach heb ei werthu), ac i’r ffrydiau hyn gael eu casglu ar wahân i’w hailgylchu.

### Yr achos dros newid

Rydym yn cydnabod yr angen i wneud y system cyfarpar trydanol ac electronig gwastraff yn symlach i fusnesau a defnyddwyr eraill nad ydynt yn ddefnyddwyr tai ddeall a chael mynediad ati. Rydym am archwilio dull gweithredu ar gyfer cyfarpar trydanol ac electronig gwastraff busnesau a chyfarpar arall nad yw ar gyfer tai lle mae rhwymedigaeth casglu’r cynhyrchwyr yn dechrau ar safle’r busnes.

### Meysydd y ceisir safbwyntiau a thystiolaeth yn eu cylch

Oherwydd y diffyg tystiolaeth sydd ar gael ar hyn o bryd am lif cyfarpar trydanol ac electronig gwastraff busnesau, nid ydym wedi llunio set o opsiynau polisi ar hyn o bryd. Bwriad y cais am dystiolaeth yw casglu tystiolaeth a safbwyntiau ar ffyrdd y gellid gwella’r system bresennol neu ei gwneud yn symlach i fusnesau ac i ddefnyddwyr eraill nad ydynt yn ddefnyddwyr tai sy’n defnyddio cyfarpar. Rydym o’r farn y gellid ymgorffori dau fesur mewn rheoliadau yn y dyfodol i sbarduno gwelliannau:

- Y dylem ymestyn yr egwyddor o gyfrifoldeb cynhyrchwyr i safle defnyddwyr busnes (a safleoedd eraill nad ydynt yn safleoedd cartref) a chyflwyno system cyfrifoldeb ar y cyd ar gyfer cyfarpar trydanol ac electronig gwastraff busnes i fusnes (B2B) drwy fod yn aelod o Gynllun Cydymffurfio Cyflenwyr, gyda'r nod o gynyddu faint o gyfarpar trydanol ac electronig gwastraff a gesglir ar wahân gan fusnesau ac a ariennir gan gynhyrchwyr.

Un opsiwn yw ymestyn yr egwyddor o gyfrifoldeb cynhyrchwyr i eiddo'r defnyddiwr terfynol. Byddai sefydliadau'n cysylltu â'r cynhyrchydd neu ei Gynllun Cydymffurfio Cynhyrchwyr i drefnu casgliad am ddim. Os na allant adnabod y cynhyrchydd gwreiddiol, neu yn achos llwyth cymysg o gyfarpar trydanol ac electronig gwastraff, gallent gysylltu ag unrhyw Gynllun Cydymffurfio Cynhyrchwyr i ofyn am gasgliad am ddim.

Mewn amgylchiadau o'r fath, byddai angen system i ddosrannu costau casglu cyfarpar trydanol ac electronig gwastraff yn deg ymysg cynhyrchwyr i sicrhau bod holl gynhyrchwyr cyfarpar busnes, drwy eu Cynlluniau Cydymffurfio Cynhyrchwyr, wedi ariannu eu cyfran o gyfanswm y casgliadau busnes dros flwyddyn. Gellid cynnwys cymhellion yn y system hefyd i wobrwyo'r cynhyrchwyr hynny sy'n gweithredu modelau busnes economi gylchol, er enghraifft, prydlesu ac ailddefnyddio/ailwampio. Byddai cyfathrebu wedi'i ariannu'n briodol yn rhan angenrheidiol o gyfrifoldebau'r cynhyrchydd.

Rydym hefyd yn croesawu tystiolaeth ynghylch a ddylid newid y diffiniad o gyfarpar cartrefi a chyfarpar nad ydynt yn rhai ar gyfer cartrefi fel bod y categorïau yn cael eu diffinio drwy lwybr i'r farchnad, er enghraifft, y byddai cyfarpar sy'n cael ei werthu drwy sianeli proffesiynol yn cael ei gategoreiddio fel cyfarpar nad yw ar gyfer cartrefi a byddai cyfarpar sy'n cael ei werthu drwy sianeli manwerthu/cartrefi yn cael ei werthu fel cyfarpar i gartrefi. Wrth fabwysiadu dull o'r fath, gellir adrodd ar ddata mwy cywir am gyfarpar a werthir i fusnesau a chyfarpar trydanol ac electronig gwastraff sy'n codi mewn busnesau lle mai'r cynhyrchwyr sy'n talu am y gwaith casglu a thrin.

- Y dylem wahardd busnesau rhag anfon eitemau cyfan o gyfarpar trydanol (fel stoc dros ben) i safleoedd tirlenwi neu losgi.

Mae rhywfaint o dystiolaeth i awgrymu y gallai rhai cynhyrchwyr a dosbarthwyr fod yn cael gwared ar gyfarpar cyn iddo ddod i ddiwedd ei oes. Gallai'r eitemau hyn fod yn newydd neu heb eu defnyddio ac maent yn debygol o fod yn gyfuniad o hen stoc, stoc heb ei werthu neu stoc dros ben, neu stoc wedi'i ddychwelyd gan gwsmeriaid. Efallai y bydd rhesymau masnachol neu ariannol y tu ôl i benderfyniad i waredu stoc mewn safle tirlenwi neu losgi. Byddai gwahardd y llwybrau gwaredu hynny'n cefnogi'r ymgyrch tuag at yr economi gylchol ymhellach drwy hyrwyddo mwy o ailddefnyddio eitemau sy'n cael eu taflu fel gwastraff.

Bydd Cymru hefyd yn ymestyn y gwaharddiadau presennol ar wastraff plastig, metel, gwydr a phapur a gesglir ar wahân sy'n mynd i safleoedd tirlenwi a llosgi i gynnwys, ar gyfer llosgi - cyfarpar trydanol ac electronig gwastraff bach, cerdyn a bwyd a gesglir ar wahân, ac, ar gyfer tirlenwi - cyfarpar trydanol ac electronig gwastraff bach, cerdyn, bwyd a thecstilau, a phob pren a gesglir ar wahân.

## Cwestiynau

44. A ydych yn cytuno neu’n anghytuno bod y system busnes i fusnes bresennol (B2B) (cyfarpar trydanol ac electronig neu gyfarpar trydanol ac electronig gwastraff, sydd wedi’i gynllunio at ddefnydd busnes, diwydiant neu broffesiynol yn unig, yn hytrach na defnydd yn y cartref) yn fecanwaith effeithiol lle gall defnyddwyr ddychwelyd cyfarpar trydanol ac electronig gwastraff i gynhyrchwyr er mwyn ei drin yn briodol? Dewiswch un o'r opsiynau canlynol:
    a. Cytuno
    b. Anghytuno
    c. Ddim yn siŵr

45. Rhowch unrhyw dystiolaeth sydd gennych i gefnogi eich ateb i gwestiwn 44.

46. A ydych yn cytuno neu’n anghytuno y dylem ymestyn yr egwyddor o gyfrifoldeb cynhyrchwyr i safle defnyddwyr busnes (a safleoedd eraill nad ydynt yn safleoedd cartref) a chyflwyno system cyfrifoldeb ar y cyd ar gyfer cyfarpar trydanol ac electronig gwastraff busnes i fusnes (B2B)? Dewiswch un o'r opsiynau canlynol:
    a. Cytuno
    b. Anghytuno
    c. Ddim yn siŵr

47. Rhowch unrhyw dystiolaeth sydd gennych i gefnogi eich ateb i gwestiwn 46.

48. A oes amgylchiadau (er enghraifft, ar gyfer mathau penodol o gynnyrch) lle dylai cynhyrchwyr unigol fod yn gyfrifol am gost casglu a thrin y cynhyrchion y maent yn eu rhoi ar y farchnad pan fyddant yn dod yn wastraff? Dewiswch un o'r opsiynau canlynol:
    a. Oes
    b. Nac oes
    c. Ddim yn siŵr

49. Os ydych chi wedi ateb ‘oes’ i gwestiwn 48, nodwch beth allai’r mathau hyn o gynnyrch fod.

50. A ydych yn cytuno y byddai system lle’r oedd cynhyrchwyr yn ariannu cost casglu gan y defnyddiwr busnes gyda chyfathrebu digonol i gefnogi hynny yn ddigon i ysgogi lefelau uwch o gyfarpar trydanol ac electronig gwastraff busnesau i mewn i’r system? Dewiswch un o'r opsiynau canlynol:
    a. Cytuno
    b. Anghytuno
    c. Ddim yn siŵr

51. Rhowch unrhyw dystiolaeth sydd gennych i gefnogi eich ateb i gwestiwn 50.

52. A oes unrhyw amgylchiadau lle na fyddai’n briodol efallai i gynhyrchwyr ariannu casgliadau gan fusnesau? Dewiswch un o'r opsiynau canlynol:
    a. Oes
    b. Nac oes
    c. Ddim yn siŵr

53. Os ydych chi wedi ateb ‘oes’ i gwestiwn 52, nodwch beth allai’r amgylchiadau hyn fod. Rhowch unrhyw dystiolaeth sydd gennych i gefnogi eich ateb.

54. A ydych yn cytuno neu’n anghytuno y dylid gwahardd cynhyrchwyr a dosbarthwyr rhag anfon eitemau cyfan o gyfarpar trydanol (fel stoc dros ben) i safleoedd tirlenwi neu losgi? Dewiswch un o'r opsiynau canlynol:
    a. Cytuno
    b. Anghytuno
    c. Ddim yn siŵr

55. Rhowch unrhyw dystiolaeth sydd gennych i gefnogi eich ateb i gwestiwn 54.

56. Pe bai gwaharddiad yn cael ei roi ar waith, a ydych yn rhagweld unrhyw ganlyniadau anfwriadol o ailgyfeirio stoc drydanol nad oes ei hangen i unrhyw un o’r llwybrau canlynol? Dewiswch o'r opsiynau canlynol:

    - Ailwerthu
    - Atgyweirio / adnewyddu
    - Ailddefnyddio
    - Ailgylchu

57. Rhowch unrhyw dystiolaeth sydd gennych i gefnogi eich ateb i gwestiwn 56.

58. Beth yw eich safbwyntiau am bolisïau eraill i wella’r system B2B? Rhowch unrhyw dystiolaeth sydd gennych i gefnogi eich ateb

## 6. Gwella safonau trin

### Cefndir

Mae’r gofynion presennol sy’n ymwneud â thrin cyfarpar trydanol ac electronig gwastraff yn briodol wedi’u nodi’n bennaf yn y gwahanol reoliadau trwyddedu amgylcheddol ar draws pob rhan o’r DU yn hytrach na’r Rheoliadau Cyfarpar Trydanol ac Electronig Gwastraff. Mae’r gofynion hynny’n berthnasol i’r holl Gyfleusterau Trin Awdurdodedig (ATFs) drwy’r amodau a nodir mewn trwyddedau a roddir gan y rheoleiddiwr perthnasol. Mae Cyfleusterau Trin Awdurdodedig Cymeradwy (AATFs) yn gallu rhoi tystiolaeth i Gynlluniau Cydymffurfio Cynhyrchwyr ynghylch unrhyw waith trin a wneir ar eu rhan. Mae’r dystiolaeth hon yn cael ei defnyddio gan Gynlluniau Cydymffurfio Cynhyrchwyr i ddangos i ba raddau y maent wedi cyflawni eu rhwymedigaethau ariannol ar gyfer casglu a thrin cyfarpar trydanol ac electronig gwastraff yn briodol.

Yn ogystal â’r gofynion sylfaenol o ran trin, mae’r Rheoliadau Cyfarpar Trydanol ac Electronig Gwastraff yn mynnu bod Cyfleusterau Trin Awdurdodedig Cymeradwy yn bodloni’r gofynion effeithlonrwydd sylfaenol o ran adfer ac ailddefnyddio/ailgylchu. Rhaid i Gynlluniau Cydymffurfio Cynhyrchwyr sicrhau bod cyfarpar trydanol ac electronig gwastraff sy'n cyfrif tuag at eu rhwymedigaethau hefyd yn bodloni'r gofynion effeithlonrwydd adfer ac ailddefnyddio/ailgylchu sylfaenol hyn.

Mae’r Canllawiau presennol ar gyfer y Technegau Trin, Adfer ac Ailgylchu Gorau sydd ar Gael (BATRRT) yn nodi’r gofynion sylfaenol ar gyfer trin cyfarpar trydanol ac electronig gwastraff. Mae egwyddorion BATRRT, a mesurau angenrheidiol eraill wedi cael eu cyfuno mewn canllawiau cyffredinol gan Asiantaeth yr Amgylchedd, sef Waste Electrical and Electronic Equipment (WEEE): Appropriate Measures for Permitted Facilities and Waste Temperature

Exchange Equipment: Appropriate Measures for Permitted Facilities. Mae hyn yn annibynnol ar yr ymgynghoriad a'r adolygiad ehangach o bolisi cyfarpar trydanol ac electronig gwastraff.

Yn ogystal â chydymffurfio â'r gofynion uchod, rhaid i gyfleusterau trin gydymffurfio â deddfwriaeth rheoli gwastraff ehangach. Mae hyn yn cynnwys Rheoliadau Gwastraff Peryglus (Cymru a Lloegr) 2005 a deddfwriaeth gyfatebol yn y gweinyddiaethau datganoledig eraill. Mae'r rhain yn nodi'r drefn ar gyfer rheoli ac olrhain gwastraff peryglus. Gall cyfarpar trydanol ac electronig gwastraff hefyd gynnwys Llygryddion Organig Parhaus (POPs), fel arfer fel ychwanegion i blastig neu fel araenau, a allai arwain at gategoreiddio gwastraff peryglus neu beidio, oherwydd y ffordd y mae rheolau ar gategoreiddio gwastraff yn gweithio. Lle mae llygryddion organig parhaus yn bresennol uwchben trothwyon penodol, rhaid anfon y deunyddiau hynny sy'n deillio o gyfarpar trydanol ac electronig gwastraff i'w dinistrio mewn safleoedd sy'n gallu gwneud hyn yn dechnegol.

## Yr achos dros newid

Y tu hwnt i ddiwygio'r Rheoliadau Cyfarpar Trydanol ac Electronig Gwastraff, rydym yn archwilio:

- pasbortau cynnyrch – a fyddai'n nodi nifer a math y deunyddiau mewn cynnyrch penodol. Gallai hyn gynnwys Mwynau Allweddol (CMs)
- olrhain gwybodaeth am gynnyrch – a fydd yn edrych ar ffyrdd o gyfathrebu gwybodaeth am gynnyrch yn well, fel a oes sylweddau peryglus ynddo, drwy gadwyni cyflenwi i'r cam gwastraff. Nod hyn yw lleihau'r risgiau sy'n deillio o gemegau peryglus mewn gwastraff, hwyluso ailddefnyddio ac ailgylchu gwell, a galluogi cyflenwyr a defnyddwyr i wneud penderfyniadau ar sail gwybodaeth yn well. Mae'r opsiynau'n cynnwys defnyddio labeli cynnyrch sydd wedi'u cysylltu â chronfa ddata ganolog o wybodaeth
- olrhain gwastraff – roedd ein hymgynghoriad diweddar yn edrych ar ffyrdd o olrhain maint a math y gwastraff a gynhyrchir, a beth sy'n digwydd iddo. Gallai hyn, o bosibl, ddarparu gwybodaeth am leoliad a faint o ddeunyddiau gwastraff y gellid eu defnyddio'n fwy cynhyrchiol, a chefnogi buddsoddi ac ailgylchu
- yr hierarchaeth gwastraff ar gyfer gwastraff peryglus – rydym am edrych ar ffyrdd o godi'r gwaith o reoli gwastraff peryglus yn uwch yn yr hierarchaeth ac mae'r ymrwymiad hwn yn ategu amcanion eraill yma

Mae'n bwysig sicrhau bod cynigion sy'n canolbwyntio ar drin cyfarpar trydanol ac electronig gwastraff yn well yn ategu'r datblygiad polisi ehangach hwn. Nid yw'r gofynion sylfaenol ar gyfer trin cyfarpar trydanol ac electronig gwastraff a nodir yng nghanllawiau BATTRT a'r cyfraddau ailgylchu ac adfer a roddir ar Gyfleusterau Trin Awdurdodedig Cymeradwy wedi newid fawr ddim ers 2006. Fodd bynnag, yn yr ymgyrch tuag at yr economi gylchol ac i gefnogi ein hymrwymiadau Sero Net, mae angen edrych ar fesurau a allai sbarduno adfer deunyddiau yn well, yn enwedig mewn ffrydiau gwastraff cymhleth fel cyfarpar trydanol ac electronig gwastraff sy'n cynnwys llu o ddeunyddiau (gan gynnwys deunyddiau hanfodol) y mae rhai ohonynt yn cael eu colli yn ystod y prosesau adfer ac ailgylchu.

Fodd bynnag, yn aml nid yw rheolwyr gwastraff yn ymwybodol o gyfansoddiad manwl yr eitemau y maent yn eu derbyn i'w prosesu. Mae astudiaeth gan Gyngor y Diwydiant Ailgylchu Cyfarpar Electronig (ICER) wedi datgelu maint y broblem. Mae'r tarfu sydd wedi dilyn a'r gost o addasu i symud tuag at gydymffurfio â rheolau llygryddion organig parhaus (a chategoreiddio gwastraff) wedi bod yn sylweddol. Mae angen i reolwyr gwastraff gael mwy o wybodaeth. Rydym yn cydnabod y gallai adrodd ac olrhain "sylweddau sy'n peri pryder" mewn cynnyrch chwarae rhan yn y gwaith o hwyluso'r economi gylchol drwy alluogi'r sector gwastraff i

ddatblygu prosesau a seilwaith priodol i dargedu'r sylweddau hyn. Gallai pasbortau cynnyrch neu ddulliau eraill o adrodd gan gynhyrchwyr cyfarpar trydanol ac electronig chwarae rhan o ran rhoi gwybod i reolwyr gwastraff ac atgyweirwyr am y sylweddau hyn, yn ogystal â chydrannau gwerthfawr y gellid eu blaenoriaethu ar gyfer eu hadfer. Gallai'r wybodaeth hon gyfrannu at asesu'r gallu i ailgylchu, atgyweirio neu gynaliadwyedd cynnyrch (o safbwynt cemegion), gan alluogi cymhellion fel ffioedd wedi'u modiwleiddio neu dargedau adfer i gael eu sefydlu. Gallai'r dull hwn o bosibl gryfhau'r cysylltiadau rhwng sectorau a deddfwriaeth gwastraff, cemegau a gweithgynhyrchu.

Mwynau allweddol yw'r rhai sy'n bwysig i economi gwlad, rhanbarth neu sector ac sy'n anodd eu cael, neu a allai ddod yn anodd eu cael. Mae Llywodraeth y DU wedi cyflwyno ei Strategaeth Mwynau Allweddol gyntaf erioed sy'n ceisio gwneud y gorau o'r hyn y mae'r DU yn ei gynhyrchu ar hyd y gadwyn gwerth mwynau allweddol – drwy gloddio, puro, gweithgynhyrchu ac ailgylchu – mewn ffordd sy'n creu swyddi a thwf ac yn gwarchod cymunedau a'n hamgylchedd naturiol. Mae mwynau allweddol yn hollbwysig i'r economi ond gallant hefyd fod mewn risg o ran diogelwch y cyflenwad. Mae llawer o'r mwynau allweddol sy'n cael eu cynhyrchu ar gael mewn crynodiad uchel mewn gwledydd penodol, nid oes modd eu hamnewid o ran eu defnydd ac mae'r cyfraddau ailgylchu yn isel. Felly, mae'n bwysig iawn ein bod yn defnyddio'r hyn sydd gennym yn well drwy gyflymu economi gylchol mwynau allweddol yn y DU – cynyddu cyfraddau adfer, ailddefnyddio ac ailgylchu ac effeithlonrwydd adnoddau, i leihau'r pwysau ar y prif gyflenwad. Yn y Strategaeth, roeddem wedi ymrwymo i edrych ar ffyrdd rheoleiddio o hyrwyddo ailgylchu ac adfer, gan gynnwys drwy ddiwygio'r rheoliadau cyfarpar trydanol ac electronig gwastraff a thrwy ymgynghori yn y dyfodol ar fatris gwastraff.

Mae llawer o'r dyfeisiau electronig rydym yn eu defnyddio bob dydd fel cyfrifiaduron, dyfeisiau tabled a ffonau symudol yn gofyn am lu o fetelau a deunyddiau wedi'u cloddio i ddatblygu'r byrddau cylched, y microsglodion a'r batris soffistigedig sydd eu hangen i gyflawni swyddogaethau a pherfformiad. Er enghraifft, mae angen 72 o'r elfennau sydd yn y tabl cyfnodol ar gyfer ffôn clyfar cyffredin, ac mae 62 ohonynt yn fetelau. Mae'r rhain yn cynnwys sinc, aur, copr, paladiwm a thantalwm i enwi dim ond ychydig. Yng nghanol y 123,901 tunnell o gyfrifiaduron personol, gliniaduron, ffonau symudol, dyfeisiau tabled, setiau teledu, monitorau a goleuadau cyfarpar trydanol ac electronig gwastraff a gesglir yn ffurfiol i'w hailgylchu yn y DU bob blwyddyn, mae 378.91t o fwynau allweddol yn cael eu 'colli' wrth brosesu (er enghraifft, yn y llwch llarpio) neu'n cael eu hallforio i gael eu trin bob blwyddyn (ac un ai'n mynd ar goll neu'n cael eu hadfer).

Mae'r cais hwn am dystiolaeth yn gyfle i gasglu tystiolaeth a safbwyntiau sy'n cefnogi'r gwaith o ddatblygu polisi ymhellach yn y maes allweddol hwn.

## Meysydd y ceisir safbwyntiau a thystiolaeth yn eu cylch

- Y dylid adolygu'r cyfraddau adfer ac ailgylchu ar gyfer cyfarpar trydanol ac electronig gwastraff i sicrhau bod y targedau hynny'n parhau'n ddigon heriol ac yn gyraeddadwy.

Nid yw'r targedau ailgylchu ac adfer presennol ar gyfer pob categori cyfarpar trydanol ac electronig gwastraff wedi cael eu diweddaru ers 2006. Rydym yn croesawu tystiolaeth i gefnogi adolygiad i sicrhau bod y targedau trin hynny'n parhau'n ddigon heriol i annog rhagor o ailgylchu ac adfer, gan barhau i fod yn gyraeddadwy.

- **2:** Y dylai fod yn ofynnol i Gyfleusterau Trin Awdurdodedig Cymeradwy adrodd yn flynyddol ar i ba raddau y maent wedi cyrraedd y targedau ailgylchu ac adfer hynny ac y dylai archwiliad annibynnol ategu eu hadroddiad.

Er mwyn cynnal adolygiad sylfaenol o safonau trin, yn gyntaf mae angen data cywir arnom ynghylch i ba raddau y mae'r busnesau hynny y gellid eu hystyried fel y rhai gorau yn y categori yn cyrraedd y targedau presennol ac yn rhagori arnynt.

Ar hyn o bryd, mae'n ofynnol i fusnesau ddarparu tystiolaeth i reoleiddwyr, pan ofynnir iddynt, fod y targedau hynny'n cael eu cyrraedd. Ond nid oes rhwymedigaeth adrodd orfodol.

- Y byddai cyflwyno cyfraddau adfer unigol ar gyfer deunyddiau penodol, gan gynnwys mwynau allweddol, yn arwain at adfer y deunyddiau hynny a'r galw amdanynt, gan gyfrannu at uchelgeisiau Sero Net a'r Economi Gylchol a chefnogi diogelwch cyflenwad deunyddiau penodol ar yr un pryd.

Nid yw'r rheoliadau presennol yn annog adfer deunyddiau penodol yn uniongyrchol. Felly, rydym yn croesawu eich barn a'ch tystiolaeth ar yr egwyddor o gymhwyso cyfraddau adfer unigol ar gyfer deunyddiau penodol (er enghraifft, mwynau, metelau a phlastigau allweddol penodol) a sut dylid cyfrifo a chymhwyso'r cyfraddau hynny.  Gallai adroddiadau o'r fath hefyd ymestyn i'r math a'r swmp o sylweddau peryglus a dynnwyd a faint o lygryddion organig parhaus a ddinistriwyd

Mae llawer o fwynau allweddol (er enghraifft magnesiwm, cobalt a thantalwm) i'w cael mewn cyfarpar trydanol ac electronig gwastraff a byddem yn croesawu tystiolaeth ar yr heriau a'r cyfleoedd o bennu cyfraddau ailgylchu ac adfer sylfaenol.

## Cwestiynau

59. A ydych yn cytuno neu'n anghytuno y dylid adolygu'r cyfraddau adfer ac ailgylchu ar gyfer cyfarpar trydanol ac electronig gwastraff i sicrhau bod y targedau hynny'n parhau'n ddigon heriol ac yn gyraeddadwy? Dewiswch un o'r opsiynau canlynol:
    a. Cytuno
    b. Anghytuno
    c. Ddim yn siŵr

60. Rhowch fanylion y ffynonellau tystiolaeth a ddefnyddiwyd i gefnogi eich ateb a thystiolaeth ynghylch i ba raddau y cyrhaeddir ac y rhagorir ar y targedau presennol.

61. A ydych yn cytuno neu'n anghytuno y dylai fod yn ofynnol i Gyfleusterau Trin Awdurdodedig Cymeradwy adrodd yn flynyddol ar i ba raddau y maent wedi cyrraedd y targedau ailgylchu ac adfer hynny ac y dylai archwiliad annibynnol ategu eu hadroddiad? Dewiswch un o'r opsiynau canlynol:

a. Cytuno
b. Anghytuno
c. Ddim yn siŵr

62. Rhowch unrhyw dystiolaeth sydd gennych i gefnogi eich ateb i gwestiwn 61.

63. Rhowch dystiolaeth o gostau tebygol adrodd ac archwilio cyfraddau ailgylchu ac adfer yn annibynnol.

64. A ydych yn cytuno neu'n anghytuno y byddai cyflwyno targedau adfer unigol ar gyfer deunyddiau penodol, gan gynnwys mwynau allweddol, yn arwain at adfer y deunyddiau hynny a'r galw amdanynt, gan gyfrannu at uchelgeisiau Sero Net a'r Economi Gylchol a chefnogi diogelwch cyflenwad deunyddiau penodol ar yr un pryd? Dewiswch un o'r opsiynau canlynol:
    a. Cytuno
    b. Anghytuno
    c. Ddim yn siŵr

65. Rhowch unrhyw dystiolaeth sydd gennych i gefnogi eich ateb i gwestiwn 64.

66. Os ydych yn cytuno â chwestiwn 64: a fyddech yn cefnogi cyflwyno adroddiadau ar ddeunyddiau penodol i ffurfio sylfaen dystiolaeth ddefnyddiol cyn gosod targedau yn y dyfodol? Dewiswch un o'r opsiynau canlynol:
    a. Cytuno
    b. Anghytuno
    c. Ddim yn siŵr

67. Os ydych chi wedi ateb yn cytuno i gwestiwn 66, a ddylai'r targedau hyn fod yn orfodol neu beidio?
    a. Gorfodol
    b. Ddim yn orfodol

68. Mae angen cyfleusterau trin arnom i ddangos bod cyfarpar trydanol ac electronig gwastraff yn cael ei reoli'n gadarn, gan gynnwys tynnu deunydd peryglus penodedig a llygryddion organig parhaus. A oes unrhyw sylweddau a chydrannau eraill y dylid eu hychwanegu at y rhestr gyfyngedig? Rhowch dystiolaeth i gefnogi eich ateb.

69. Yn eich barn chi, beth yw'r prif rwystrau i wella'r broses o adfer deunyddiau yn well wrth drin cyfarpar trydanol ac electronig gwastraff? Dewiswch un o'r opsiynau canlynol:
    a. Rhwystr gwybodaeth
    b. Rhwystr technolegol
    c. Arall

70. Os ateboch chi 'arall' i gwestiwn 69, nodwch beth fyddai hynny.

71. Pa wybodaeth ydych chi'n meddwl y dylai fod yn ofynnol i gyflenwyr cynnyrch ei darparu i helpu gweithredwyr trin gwastraff i gynyddu'r broses o adfer deunyddiau neu gydrannau penodol sydd i'w gweld yn aml mewn cyfarpar trydanol ac electronig gwastraff?

# Rhestr o'r cwestiynau

## Adennill costau net yn llawn

5. Gan ystyried y pwyntiau o blaid ac yn erbyn a nodir yn y cais am dystiolaeth, dewiswch pa rai o'r gweithgareddau canlynol y dylai cynhyrchwyr eu hariannu:

   d) Gwastraff gweddilliol
   e) Gwastraff sy'n cael ei dipio'n anghyfreithlon
   f) Gwastraff sy'n cael ei daflu fel sbwriel

6. Rhowch dystiolaeth o gyfaint (tunelli) cyfarpar trydanol ac electronig gwastraff sy'n codi yn y DU a/neu yn ôl gwlad mewn gwastraff gweddilliol.

7. Rhowch dystiolaeth o gyfaint (tunelli) cyfarpar trydanol ac electronig gwastraff sy'n codi yn y DU a/neu yn ôl gwlad mewn gwastraff sy'n cael ei dipio'n anghyfreithlon.

8. Rhowch dystiolaeth o gyfaint (tunelli) sy'n codi yn y DU a/neu yn ôl gwlad mewn gwastraff sy'n cael ei daflu fel sbwriel.

9. Rhowch dystiolaeth o'r costau net fesul tunnell ar gyfer casglu cyfarpar trydanol ac electronig gwastraff mewn gwastraff gweddilliol.

10. Rhowch dystiolaeth o'r costau net fesul tunnell ar gyfer casglu cyfarpar trydanol ac electronig gwastraff mewn gwastraff sy'n cael ei dipio'n anghyfreithlon.

11. Rhowch dystiolaeth o'r costau net fesul tunnell ar gyfer casglu cyfarpar trydanol ac electronig gwastraff mewn gwastraff sy'n cael ei daflu fel sbwriel.

12. Rhowch dystiolaeth o'r mathau o gyfarpar trydanol ac electronig gwastraff a gaiff eu cynnwys fel arfer mewn ffrwd gwastraff gweddilliol.

13. Rhowch dystiolaeth o'r mathau o gyfarpar trydanol ac electronig gwastraff a gaiff eu cynnwys fel arfer mewn gwastraff sy'n cael ei dipio'n anghyfreithlon.

14. Rhowch dystiolaeth o'r mathau o gyfarpar trydanol ac electronig gwastraff a gaiff eu cynnwys fel arfer mewn gwastraff sy'n cael ei daflu fel sbwriel.

## Dyrannu costau ar gyfer casglu a thrin cyfarpar trydanol ac electronig gwastraff y cartref

15. A ydych yn cytuno neu'n anghytuno y dylem sefydlu proses dreigl 3 blynedd ar gyfer pennu rhwymedigaethau ariannol cynhyrchwyr i greu mwy o sicrwydd yn y system? Dewiswch un o'r opsiynau canlynol:
    a. Cytuno
    b. Anghytuno
    c. Ddim yn siŵr

16. Rhowch dystiolaeth i gefnogi eich ateb i gwestiwn 15

17. Darparwch dystiolaeth ynghylch p'un a fyddai gosod rhagolwg treigl tair blynedd ai peidio yn rhoi mwy o sicrwydd yn y system ac yn annog y sector trin i fuddsoddi mwy.

18. Rhowch dystiolaeth i ddangos a fyddai rhagolwg tair blynedd i osod rhwymedigaethau ariannol yn cael ei gefnogi gan hyd contract o dair blynedd o leiaf rhwng Cynlluniau Cydymffurfio Cynhyrchwyr a Chyfleusterau Casglu Dynodedig er mwyn annog y sector trin i fuddsoddi mwy?

19. Beth yw eich barn am y syniad o sefydlu system ddyrannu fel ffordd arall o osod rhwymedigaethau ariannol ar gynhyrchwyr a gwarantu y bydd gwasanaethau casglu Awdurdodau Lleol yn cael eu hariannu?

    Rhowch fanylion y ffynonellau tystiolaeth a ddefnyddiwyd i gefnogi eich ateb

20. Rhowch dystiolaeth o'r amcangyfrif o gostau a manteision ariannol sefydlu a gweithredu system o'r fath.

21. Rhowch dystiolaeth o unrhyw ddulliau eraill, nad ydynt wedi'u disgrifio uchod, a allai, yn eich barn chi, fod yn addas ar gyfer dyrannu rhwymedigaethau ariannol ar gynhyrchwyr.

## Atal gwastraff ac ailddefnyddio mwy o gyfarpar trydanol ac electronig diangen

22. A ydych yn cytuno neu'n anghytuno y byddai rhoi mwy o bwysoliad ar dunelledd a gesglir gan Gynlluniau Cydymffurfio Cynhyrchwyr ar gyfer ailddefnyddio (neu baratoi i ailddefnyddio) tuag at eu targedau casglu, yn hytrach na thunelledd a gesglir ar gyfer ailgylchu yn cymell mwy o ailddefnyddio (neu baratoi ar gyfer ailddefnyddio) cyfarpar trydanol ac electronig gwastraff? Dewiswch un o'r opsiynau canlynol:
    a. Cytuno
    b. Anghytuno
    c. Ddim yn siŵr

    Rhowch fanylion y ffynonellau tystiolaeth a ddefnyddiwyd i gefnogi eich atebion.

23. A ydych yn cytuno neu'n anghytuno y dylem gyflwyno targedau newydd ar gyfer ailddefnyddio (neu baratoi ar gyfer ailddefnyddio) cyfarpar trydanol ac electronig gwastraff sydd wedi cael ei gasglu ar wahân i fathau eraill o wastraff i gymell casglu mwy o gyfarpar i'w ailddefnyddio (neu baratoi ar gyfer ei ailddefnyddio)? Dewiswch un o'r opsiynau canlynol:
    a. Cytuno
    b. Anghytuno
    c. Ddim yn siŵr

    Rhowch fanylion y ffynonellau tystiolaeth a ddefnyddiwyd i gefnogi eich atebion

24. Os ydych chi wedi ateb cytuno ar gyfer cwestiwn 12, rhowch dystiolaeth i ddangos ar ba rai o'r grwpiau rhanddeiliaid isod y dylid gosod targedau er mwyn cael yr effaith fwyaf? Dewiswch un o'r opsiynau canlynol:
    a. Cynhyrchwyr (drwy Gynlluniau Cydymffurfio Cynhyrchwyr)

b. Manwerthwyr
c. Awdurdodau lleol
d. Manwerthwyr ac Awdurdodau Lleol ill dau
e. Ddim yn siŵr

25. A ydych yn cytuno neu'n anghytuno y byddai rhwymedigaeth ar Gynlluniau Cydymffurfio Cynhyrchwyr i ddarparu gwasanaethau casglu am ddim i elusennau ailddefnyddio a'r sector manwerthu elusennol ar gyfer cyfarpar a roddwyd, ac y bernir yn ddiweddarach ei fod yn anaddas i'w ailddefnyddio, yn hyrwyddo ailddefnyddio mwy drwy ddileu rhwystr cost sylweddol i'r sector? Dewiswch un o'r opsiynau canlynol:
    a. Cytuno
    b. Anghytuno
    c. Ddim yn siŵr

    Rhowch fanylion y ffynonellau tystiolaeth a ddefnyddiwyd, a data cost lle bo hynny ar gael, i gefnogi eich atebion

26. A ydych yn cytuno neu'n anghytuno y byddai mynediad at ddata gan fanwerthwyr ac Awdurdodau Lleol ar faint o gyfarpar ail-law sy'n cael ei dderbyn yn y cyfleusterau casglu hyn i'w ailddefnyddio (ac o ganlyniad, sy'n cael ei ddargyfeirio o system cyfrifoldeb cynhyrchwyr cyfarpar trydanol ac electronig gwastraff) yn rhoi cipolwg newydd sylweddol a defnyddiol ar faint o gyfarpar sy'n cael ei ailddefnyddio nad yw'n cael ei ystyried fel gwastraff? Dewiswch un o'r opsiynau canlynol:
    a. Cytuno
    b. Anghytuno
    c. Ddim yn siŵr

    Rhowch fanylion y ffynonellau tystiolaeth a ddefnyddiwyd i gefnogi eich atebion, gan gynnwys cipolwg ar faint o gyfarpar ail-law sy'n cael ei ddargyfeirio drwy'r llwybrau hyn ar hyn o bryd

27. Rhowch dystiolaeth (gan gynnwys o ffynonellau rhyngwladol) o fecanweithiau posibl eraill i gynyddu lefelau ailddefnyddio a pharatoi ar gyfer ailddefnyddio ar draws amrywiaeth eang o gynnyrch.

## Symud i economi gylchol drwy ddylunio cynnyrch a modelau busnes gwell

28. A ydych yn cytuno neu'n anghytuno y gallai rhoi system eco-fodiwleiddio ar waith yn system cyfarpar trydanol ac electronig gwastraff y DU gymell dylunio cynnyrch mwy cynaliadwy? Dewiswch un o'r opsiynau canlynol:
    a. Cytuno
    b. Anghytuno
    c. Ddim yn siŵr

    Rhowch fanylion y ffynonellau tystiolaeth a ddefnyddiwyd i gefnogi eich atebion

29. Os ydych yn cytuno â chwestiwn 17, pa rai o'r dulliau canlynol fyddech chi'n fwyaf tebygol o'u cefnogi:

a. System newydd o gyfrifoldeb estynedig cynhyrchwyr lle mae ffioedd amrywiol, yn seiliedig ar unedau a roddir ar y farchnad (POM), yn cael eu modiwleiddio drwy weithredu cosb (ffi uwch) neu fonws (ffi is).
b. Cynnal y system bresennol o osod rhwymedigaethau ar sail dull cyfran marchnad (yn ôl pwysau) ond gyda'r gyfran honno o'r farchnad wedi'i modiwleiddio i wobrwyo cynhyrchwyr y mae eu cynnyrch yn cael yr effaith amgylcheddol leiaf, gan leihau eu costau cydymffurfio o'u cymharu â'r rheini sy'n cynhyrchu cynnyrch mwy niweidiol.
c. Y naill neu'r llall o'r dulliau uchod
d. Dull arall (rhowch fanylion).

30. Pa rai o'r metrigau canlynol y dylem ni eu defnyddio i flaenoriaethu cynnyrch ar gyfer eco-fodiwleiddio? Dewiswch un o'r opsiynau canlynol:
    a. Cyfanswm pwysau'r cynnyrch (mewn tunelli).
    b. Cyfanswm faint a werthwyd (mewn unedau) ar farchnad y DU.
    c. Dwysedd carbon y cynnyrch.
    d. Arall (rhowch fanylion)

31. Dywedwch a ydych yn cytuno neu'n anghytuno â'r meini prawf eco-ddylunio canlynol fel sail effeithiol ar gyfer eco-fodiwleiddio:
    a. Cynnwys wedi'i ailgylchu
        i. Cytuno
        ii. Anghytuno
    b. Modd ailgylchu
        i. Cytuno
        ii. Anghytuno
    c. Modd atgyweirio
        i. Cytuno
        ii. Anghytuno
    d. Gwydnwch
        i. Cytuno
        ii. Anghytuno
    e. Effeithlonrwydd ynni
        i. Cytuno
        ii. Anghytuno
    f. Sylweddau peryglus
        i. Cytuno
        ii. Anghytuno

32. A oes unrhyw feini prawf eraill a fyddai'n berthnasol yn eich barn chi? Nodwch beth allai'r rhain fod.

33. Sut dylid dilysu cydymffurfiad â meini prawf eco-fodiwleiddio mewn ffordd sy'n cydbwyso cost â chyfanrwydd y system? Dewiswch un o'r opsiynau canlynol:
    a. Hunanddatgan
    b. Datganiad trydydd parti
    c. Awdurdodau yn rheoli neu'n archwilio o flaen llaw
    d. Arall (rhowch fanylion)

34. A ydych yn cytuno neu'n anghytuno y dylai eco-fodiwleiddio gael ei gefnogi gan labeli gorfodol er mwyn i ddefnyddwyr allu gweld i ba raddau mae'r cynnyrch wedi bodloni meini prawf penodol ar gyfer eco-ddylunio? Dewiswch un o'r opsiynau canlynol:
    d) Cytuno
    e) Anghytuno
    f) Ddim yn siŵr

    Rhowch dystiolaeth i gefnogi eich ateb.

35. Os ydych chi wedi ateb 'cytuno' i'r cwestiwn uchod, ym mha fformat ydych chi'n meddwl y dylid dangos yr wybodaeth hon? Dewiswch un o'r opsiynau canlynol:
    d) Cod QR (neu dag electronig arall)
    e) Label ffisegol
    f) Fformat arall (rhowch fanylion)

36. A ydych yn cytuno neu'n anghytuno y dylai cynhyrchion sydd ar gael ar y farchnad gan ddefnyddio modelau busnes economi gylchol gael eu heithrio o'r gwaith o gyfrifo rhwymedigaethau casglu a thrin a roddir ar gynhyrchwyr oherwydd y byddant yn gyfrifol am y cynnyrch unigol pan ddaw'n wastraff beth bynnag? Dewiswch un o'r opsiynau canlynol:
    a. Cytuno
    b. Anghytuno
    c. Ddim yn siŵr

    Rhowch fanylion y ffynonellau tystiolaeth a ddefnyddiwyd i gefnogi eich atebion.

## Cynyddu casgliadau cyfarpar trydanol ac electronig gwastraff busnesau

37. A ydych yn cytuno neu'n anghytuno bod y system busnes i fusnes bresennol (B2B) (cyfarpar trydanol ac electronig neu gyfarpar trydanol ac electronig gwastraff, sydd wedi'i gynllunio at ddefnydd busnes, diwydiant neu broffesiynol yn unig, yn hytrach na defnydd yn y cartref) yn fecanwaith effeithiol lle gall defnyddwyr ddychwelyd cyfarpar trydanol ac electronig gwastraff i gynhyrchwyr er mwyn ei drin yn briodol? Dewiswch un o'r opsiynau canlynol:
    a. Cytuno
    b. Anghytuno
    c. Ddim yn siŵr

    Rhowch fanylion y ffynonellau tystiolaeth a ddefnyddiwyd i gefnogi eich atebion

38. A ydych yn cytuno neu'n anghytuno y dylem ymestyn yr egwyddor o gyfrifoldeb cynhyrchwyr i safle defnyddwyr busnes (a safleoedd eraill nad ydynt yn safleoedd cartref) a chyflwyno system cyfrifoldeb ar y cyd ar gyfer cyfarpar trydanol ac electronig gwastraff busnes i fusnes (B2B)? Dewiswch un o'r opsiynau canlynol:
    a. Cytuno
    b. Anghytuno
    c. Ddim yn siŵr

    Rhowch fanylion y ffynonellau tystiolaeth a ddefnyddiwyd i gefnogi eich atebion

39. A oes amgylchiadau (er enghraifft, ar gyfer mathau penodol o gynnyrch) lle dylai cynhyrchwyr unigol fod yn gyfrifol am gost casglu a thrin y cynhyrchion y maent yn eu

rhoi ar y farchnad pan fyddant yn dod yn wastraff? Dewiswch un o'r opsiynau canlynol:

a. Oes
b. Nac oes
c. Ddim yn siŵr

Rhowch fanylion y ffynonellau tystiolaeth a ddefnyddiwyd i gefnogi eich atebion

40. Os ydych chi wedi ateb 'oes' i gwestiwn 28, nodwch beth allai'r mathau hyn o gynnyrch fod.

41. A ydych yn cytuno y byddai system lle'r oedd cynhyrchwyr yn ariannu cost casglu gan y defnyddiwr busnes gyda chyfathrebu digonol i gefnogi hynny yn ddigon i ysgogi lefelau uwch o gyfarpar trydanol ac electronig gwastraff busnesau i mewn i'r system? Dewiswch un o'r opsiynau canlynol:
    a. Cytuno
    b. Anghytuno
    c. Ddim yn siŵr

Rhowch fanylion y ffynonellau tystiolaeth a ddefnyddiwyd i gefnogi eich atebion

42. A oes unrhyw amgylchiadau lle na fyddai'n briodol efallai i gynhyrchwyr ariannu casgliadau gan fusnesau? Dewiswch un o'r opsiynau canlynol:
    a. Oes
    b. Nac oes
    c. Ddim yn siŵr

Rhowch fanylion y ffynonellau tystiolaeth a ddefnyddiwyd i gefnogi eich atebion

43. A ydych yn cytuno neu'n anghytuno y dylid gwahardd cynhyrchwyr a dosbarthwyr rhag anfon eitemau cyfan o gyfarpar trydanol (fel stoc dros ben) i safleoedd tirlenwi neu losgi? Dewiswch un o'r opsiynau canlynol:
    a. Cytuno
    b. Anghytuno
    c. Ddim yn siŵr

Rhowch fanylion y ffynonellau tystiolaeth a ddefnyddiwyd i gefnogi eich atebion

44. Pe bai gwaharddiad yn cael ei roi ar waith, a ydych yn rhagweld unrhyw ganlyniadau anfwriadol o ailgyfeirio stoc drydanol nad oes ei hangen i unrhyw un o'r llwybrau canlynol? Dewiswch un o'r opsiynau canlynol:
    - Ailwerthu
    - Atgyweirio / adnewyddu
    - Ailddefnyddio
    - Ailgylchu

Rhowch fanylion y ffynonellau tystiolaeth a ddefnyddiwyd i gefnogi eich atebion

45. Beth yw eich safbwyntiau am bolisïau eraill i wella'r system B2B?

Rhowch fanylion y ffynonellau tystiolaeth a ddefnyddiwyd i gefnogi eich atebion

## Gwella safonau trin

46. A ydych yn cytuno neu’n anghytuno y dylid adolygu’r cyfraddau adfer ac ailgylchu ar gyfer cyfarpar trydanol ac electronig gwastraff i sicrhau bod y targedau hynny’n parhau’n ddigon heriol ac yn gyraeddadwy? Dewiswch un o'r opsiynau canlynol:
    a. Cytuno
    b. Anghytuno
    c. Ddim yn siŵr

    Rhowch fanylion y ffynonellau tystiolaeth a ddefnyddiwyd i gefnogi eich ateb a thystiolaeth ynghylch i ba raddau y cyrhaeddir ac y rhagorir ar y targedau presennol.

47. A ydych yn cytuno neu’n anghytuno y dylai fod yn ofynnol i Gyfleusterau Trin Awdurdodedig Cymeradwy adrodd yn flynyddol ar i ba raddau y maent wedi cyrraedd y targedau ailgylchu ac adfer hynny ac y dylai archwiliad annibynnol ategu eu hadroddiad? Dewiswch un o'r opsiynau canlynol:
    a. Cytuno
    b. Anghytuno
    c. Ddim yn siŵr

    Rhowch fanylion y ffynonellau tystiolaeth a ddefnyddiwyd i gefnogi eich ateb.

48. Rhowch dystiolaeth o gostau tebygol adrodd ac archwilio cyfraddau ailgylchu ac adfer yn annibynnol.

49. A ydych yn cytuno neu’n anghytuno y byddai cyflwyno targedau adfer unigol ar gyfer deunyddiau penodol, gan gynnwys mwynau allweddol, yn arwain at adfer y deunyddiau hynny a’r galw amdanynt, gan gyfrannu at uchelgeisiau Sero Net a’r Economi Gylchol a chefnogi diogelwch cyflenwad deunyddiau penodol ar yr un pryd? Dewiswch un o'r opsiynau canlynol:
    a. Cytuno
    b. Anghytuno
    c. Ddim yn siŵr

Rhowch fanylion y ffynonellau tystiolaeth a ddefnyddiwyd i gefnogi eich ateb.

50. Os ydych yn cytuno â chwestiwn 38: a fyddech yn cefnogi cyflwyno adroddiadau ar ddeunyddiau penodol i ffurfio sylfaen dystiolaeth ddefnyddiol cyn gosod targedau gorfodol ar sail deunyddiau yn y dyfodol? Dewiswch un o'r opsiynau canlynol:
    a. Cytuno
    b. Anghytuno
    c. Ddim yn siŵr

51. Mae angen cyfleusterau trin arnom i ddangos bod cyfarpar trydanol ac electronig gwastraff yn cael ei reoli’n gadarn, gan gynnwys tynnu deunydd peryglus penodedig a llygryddion organig parhaus. A oes unrhyw sylweddau a chydrannau eraill y dylid eu hychwanegu at y rhestr gyfyngedig?

Rhowch fanylion y ffynonellau tystiolaeth a ddefnyddiwyd i gefnogi eich ateb.

52. Yn eich barn chi, beth yw'r prif rwystrau i wella'r broses o adfer deunyddiau yn well wrth drin cyfarpar trydanol ac electronig gwastraff? Dewiswch un o'r opsiynau canlynol:
    a. Rhwystr gwybodaeth
    b. Rhwystr technolegol
    c. Arall (rhowch fanylion)

Rhowch fanylion y ffynonellau tystiolaeth a ddefnyddiwyd i gefnogi eich ateb.

53. Pa wybodaeth ydych chi'n meddwl y dylai fod yn ofynnol i gyflenwyr cynnyrch ei darparu i helpu gweithredwyr trin gwastraff i gynyddu'r broses o adfer deunyddiau neu gydrannau penodol sydd i'w gweld yn aml mewn cyfarpar trydanol ac electronig gwastraff?

# Geirfa

**ATF** – Cyfleuster Trin Awdurdodedig

- Unrhyw safle gwastraff sydd â thrwydded neu esemptiad trwydded

**AATF** - Cyfleuster Trin Awdurdodedig Cymeradwy

- Cyfleuster Trin Awdurdodedig gyda chymeradwyaeth ychwanegol sy'n caniatáu iddo gyhoeddi tystiolaeth ynghylch ailddefnyddio, ailgylchu ac adfer cyfarpar trydanol ac electronig gwastraff.
- Rhaid iddo fod wedi cael caniatâd i dderbyn a thrin cyfarpar trydanol ac electronig gwastraff.

Yng Ngogledd Iwerddon, mae'r esemptiad hwn wedi'i ymgorffori ym Mharagraff 49, Atodlen 2, Rhan I o'r Rheoliad Trwyddedu Rheoli Gwastraff (Gogledd Iwerddon) 2003 (fel y'i diwygiwyd).

**B2B** - Busnes i Fusnes

- Ffordd arall o gyfeirio at gyfarpar trydanol ac electronig neu gyfarpar trydanol ac electronig gwastraff nad yw'n deillio o gartrefi.
- Cyfarpar trydanol ac electronig a chyfarpar trydanol ac electronig gwastraff sydd wedi'i ddylunio at ddefnydd busnes/diwydiant/proffesiynol yn unig.
- Nid yw'n cynnwys eitemau y gall deiliaid tai eu defnyddio hefyd

**BATRRT** - Y Technegau Trin, Adfer ac Ailgylchu Gorau sydd ar Gael

- Arweiniad sydd wedi'i gyhoeddi, sy'n benodol ar gyfer cyfarpar trydanol ac electronig gwastraff. Mae hwn yn cael ei ddiweddaru ar hyn o bryd

**CM** - Mwynau Allweddol

- metelau a mwynau y mae eu hechdynnu yn bryder gwleidyddol, economaidd ac amgylcheddol.

**DCF** - Cyfleuster Casglu Dynodedig

- Safle sydd wedi'i gymeradwyo i gasglu cyfarpar trydanol ac electronig gwastraff o dan y Rheoliadau Cyfarpar Trydanol ac Electronig Gwastraff.
- Rhaid cydymffurfio â Chod Ymarfer y Cyfleuster Casglu Dynodedig

**DAERA** - Yr Adran Amaethyddiaeth, yr Amgylchedd a Materion Gwledig

- Mae gan DAERA gyfrifoldeb dros bolisi bwyd, ffermio, amgylcheddol, pysgodfeydd, coedwigaeth a chynaliadwyedd a datblygu'r sector gwledig yng Ngogledd Iwerddon
- Mae'r Adran yn cynorthwyo datblygiad cynaliadwy'r sectorau bwyd-amaeth, amgylcheddol, pysgota a choedwigaeth yn economi Gogledd Iwerddon

**DEFRA** - Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig

- Yr adran o'r llywodraeth sy'n gyfrifol am ddiogelu ein hamgylchedd naturiol, cefnogi ein diwydiant bwyd a ffermio sydd gyda'r gorau yn y byd, a chynnal economi wledig ffyniannus
- Mae'n rheoli'r gwaith o Benodi System Gydbwyso Cynhyrchwyr
- Mae'n rheoli'r gwaith o benodi gweithredwr y Ffi Cydymffurfio

Mae'n cyhoeddi Cod Ymarfer Cyfleusterau Casglu Dynodedig

**EEE** - Cyfarpar Trydanol ac Electronig

- Ystyrir bod yr holl eitemau trydanol ac electronig o fewn cwmpas Rheoliadau Cyfarpar Trydanol ac Electronig Gwastraff (2013) oni bai eu bod yn bodloni un o'r esemptiadau fel y nodir yn rheoliad 7 o'r Rheoliadau hynny

**EPR** - Cyfrifoldeb Estynedig Cynhyrchwyr

- Mae hwn yn ddull polisi lle rhoddir cyfrifoldeb sylweddol i gynhyrchwyr – ariannol a/neu ffisegol – ar gyfer trin neu waredu'r cynhyrchion y maent yn eu rhoi ar y farchnad pan fyddant yn dod yn wastraff

**HWRC** - Canolfan Ailgylchu Gwastraff y Cartref

- Mae'r rhain yn cael eu darparu gan yr Awdurdod Lleol fel man lle gall preswylwyr gael gwared ar wastraff eu cartref a deunydd i'w ailgylchu yn ddiogel, yn rhad ac am ddim fel arfer.

Bydd y rhan fwyaf o Awdurdodau Lleol yn cofrestru eu Canolfannau fel Cyfleuster Casglu Dynodedig er mwyn gallu derbyn cyfarpar trydanol ac electronig gwastraff

**PCS** - Cynllun Cydymffurfio Cynhyrchwyr

- 'Mae Cynllun Cydymffurfio Cynhyrchwyr yn sefydliad ar gyfer aelodau. Cynhyrchwyr cyfarpar trydanol ac electronig yw'r aelodau.
- Mae Cynllun Cydymffurfio Cynhyrchwyr yn gyfrifol am gofrestru ei holl aelodau bob blwyddyn a rhaid iddo:
- sicrhau ei fod yn bodloni ei rwymedigaethau ariannol o dan y rheoliadau cyfarpar trydanol ac electronig gwastraff
  cyflawni ei rwymedigaethau o ran adrodd ar ddata

**POPs** - Llygryddion Organig Parhaus

- Cemegion wedi'u gweithgynhyrchu sydd wedi'u gwahardd o dan Gonfensiwn Stockholm ar Lygryddion Organig Parhaus. Mae Confensiwn Stockholm yn gytuniad amgylcheddol rhyngwladol sy'n ceisio dileu neu gyfyngu ar gynhyrchu a defnyddio llygryddion organig parhaus.
- Mae'n cynnwys deunyddiau gwrthfflam cyffredin fel DBDE (decabromodipheny-l ether) a rhai eraill.
- Mae'r Rheoliadau Cyfyngu ar Sylweddau Peryglus wedi cyfyngu ar ddefnyddio llygryddion organig parhaus mewn cynnyrch trydanol newydd yn y DU ers 2006.

**Rheoliadau Cyfyngu ar Sylweddau Peryglus (RoHS**) - Rheoliadau sy'n cyfyngu ar ddefnyddio Sylweddau Peryglus Penodol mewn Cyfarpar Trydanol ac Electronig 2012

  - Chwaer Reoliadau'r Rheoliadau Cyfarpar Trydanol ac Electronig Gwastraff.
  - Yn cyfyngu ar ddefnyddio rhai cemegau mewn cyfarpar trydanol ac electronig.

**WEEE** - Cyfarpar Trydanol ac Electronig Gwastraff

Mae cyfarpar trydanol ac electronig gwastraff yn golygu unrhyw wastraff trydanol neu electronig, p'un a yw'n gyfan neu wedi torri, sy'n mynd i gael ei waredu.

## Rhestr o ffynonellau tystiolaeth


Waste electricals: towards a circular economy - Research & reports - Recycle Your Electricals

DSS (2023) 'Implementing eco-modulation into the UK's WEEE system and exploring resource efficiency and eco-design for energy-related products'

A UK WEEE matching system: a feasibility study - Recycle Your Electricals

Eunomia (2019) Electrical and electronic equipment: Ingredients for Successful Extended Producer Responsibility

UN Environment Programme (2017) 'The Long View: Exploring Product Lifetime Extension'

An assessment of the levels of persistent organic pollutants (POPs) in waste electronic and electrical equipment in England and Wales (icer.org.uk)

Material Focus (2020) 'Electrical Waste: Challenges and Opportunities' -

https://wrap.org.uk/resources/reprort/quantifying-composition-municipal-waste

Research to identify and address gaps in existing WEEE data relative to the on-going policy review, Anthesis 2022

Material-Focus-Update-to-A-Review-Economic-and-Environmental-of-Kerbside-Collections-for-Waste-Electricals-March-2022.pdf (squarespace.com)

Material Focus (2022) 'New metrics that could help drive circularity in the UK's waste electricals and portable battery systems':

Valuation of externalities of selected waste management alternatives: A comparative review and analysis - ScienceDirect

DEFRA (2021) Fly-tipping statistics for England, 2020 to 2021 (Rhagfyr 2021).

Resilience for the Future: The United Kingdom's Critical Mineral Strategy (2022)

World Energy Outlook, International Energy Agency, 13 Hydref 2021; The Role of Critical Minerals in Clean Energy Transitions, International Energy Agency, 5 Mai 2021.

A review of the environmental fate and effects of hazardous substances released from electrical and electronic equipment during recycling: Examples from China and India - ScienceDirect

Electronic waste and their leachates impact on human health and environment: Global ecological threat and management - ScienceDirect

Evidence Review of Fly-tipping Behaviour.pdf (zerowastescotland.org.uk)

Adroddiad Cyngor Dosbarth Canol Sussex: Proposal for an Enhanced Recycling Collection Service for Textiles and Small Waste Electrical and El.pdf (moderngov.co.uk)

https://www.eunomia.co.uk/reports-tools/the-climate-change-impacts-of-recycling-services-in-wales

Eunomia: Ditching Diesel central assumption for residual RCV round mileage

Valuation of greenhouse gas emissions: for policy appraisal and evaluation 2021, Annex 1,

https://www.gov.uk/government/consultations/packaging-and-packaging-waste-introducing-extended-producer-responsibility

https://www.gov.uk/government/collections/business-population-estimates

https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/827960/RPC_Small_and_Micro_Business_Assessment__SaMBA___August_2019.pdf

European Commission analysis of the WEEE value chain summarised by Anthesis to Steel, Aluminium, Glass, and Dense Plastics.

The Green Book: appraisal and evaluation in central government - GOV.UK (www.gov.uk), tudalen 63

Electronic waste and their leachates impact on human health and environment: Global ecological threat and management - ScienceDirect

Valuation of externalities of selected waste management alternatives: A comparative review and analysis - ScienceDirect

Mineral Extraction - an overview | ScienceDirect Topics

Increased carbon footprint of materials production driven by rise in investments | Nature Geoscience
metals_environmental_risks_report_english.pdf

Royal Society of Chemistry and Ipsos Mori (2019): Elements in Danger – Consumer survey

Dale, L. a Fujita, S. (2008), "*An Analysis of the Price Elasticity of Demand for Household Appliances";* University of California Berkeley, (Chwefror 2008).

Green Alliance: levelling up through circular economy jobs - https://green-alliance.org.uk/publication/levelling-up-through-circular-economy-jobs/

25 Year Environment Plan - GOV.UK (www.gov.uk)

Clean Growth Strategy - GOV.UK (www.gov.uk)